Y CARDI BACH
Papur Bro Dyffryn Taf
Cariad o beth Cardi Bach
Rhifyn 458 Chwefror 2025 Pris £1.50

# YMGYRCH CODI CERFLUN TWM CARNABWTH



Mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen yn hwylus. Mae Rubin Eynon, y cerflunydd o Gastell Nedd, wedi cwblhau'r dyluniad erbyn hyn ac mae'n barod i gael ei anfon i baratoi'r mowld efydd yng Nghlunderwen.

Gweler llun o'r dyluniad uchod. Rydym wedi talu Rubin am y gwaith dechreuol, yn ogystal a chwmni Studio-Response sy'n hwyluso'r gwaith, yn ogystal â chanfod grantiau ar gyfer y fenter. Mae cais grant newydd ei gyflwyno i Gronfa Treftadaeth y Loteri ac hyderwn bydd hwnnw'n llwyddiannus.

Rydym wedi ffurfio Rhaglen Celf a Threftadaeth Twm Carnabwth fydd yn ymwneud â'r gymuned gyfan ac yn cyfrannu at leoliad y cerflun drwy sicrhau cornel treftadaeth parhaol. Mae'r ymgyrch codi arian hefyd yn mynd yn ei flaen ac rydym wedi codi £19,700 hyd yn hyn, sef bron i dreian o'r nod o £60,000. Rhaid pwysleisio fod y fenter hon wedi codi o blith y gymuned am ein bod yn credu ei bod yn bwysig i gadw un o'n harwyr mwyaf mewn cof. Twm Carnabwth, wrth gwrs, wnaeth arwain y fintai gyntaf i whalu tollborth Efailwen yn 1839, cyn i Derfysg Beca ymledu'n ddiweddarach ar draws Sir Gaerfyrddin a rhannau o Forgannwg, er mwyn sicrhau cyfiawnder i'r werin bobol.

Bydd y cerflun yn sicr yn atyniad i ymwelwyr ac yn hynny o beth, yn cyfrannu tuag at economi'r fro.

*parhad ar dudalen 10*

## Cwis Y Cardi Bach

Cynhaliwyd cwis Y Cardi Bach yng Nghaffi Beca ar nos Wener, Chwefror 8fed. Paratowyd y cwis a holwyd y cwestiynnau gan Iola Wyn. Roedd yn gwis ardderchog gydag ystod o gwestiynnau ar amrywiaeth o bynciau. Cafwyd amser hwyliog a phawb yn mwynhau ceisio ffeindio'r atebion. Diolch arbennig i Iola am lunio cwis mor ddiddorol. Enillwyd y cwis gan dîm BLIRP sef Beti-Wyn, Lilwen, Iona, Rosemarie a Pat, yn ail oedd tîm Hoelion Wyth Beca ac yn drydydd Merched y Wawr San Cler.

Diolch i Robert a'i staff o Gaffi Beca am adael i ni gynnal y cwis yno a darparu lluniaeth. Diolch, hefyd, i bawb a gyfranodd wobr raffl. Fe'u henillwyd gan Iona Morgan, Heather Jenkins, Andrew James, Eileen Davies, Wyn Evans, Val Davies a Rhian White. Diolchodd Eurfyl, y Cadeirydd, i bawb am fynychu'r cwis ac i bawb a wnaeth gyfrannu tuag at y noson.



Y tîm buddugol yng nghwmni Iola Wyn a'r swyddogion

**Y CARDI BACH**

| | |
|---|---|
| **Golygydd, Cadeirydd a Dosbarthwr** | Eurfyl Lewis 01994 419495 |
| **Is-gadeirydd:** | Iola Wyn 07870 100831 |
| **Ysgrifennydd**: | Beti Wyn James 01994 230966 |
| **Trysorydd** | Rosemarie Davies 01994 419005 |
| **Trysorydd y Clwb '200':** | Rhian White 01994 231338 |
| **Cysodwyr:** | Wyn a Meirwen Evans 01994 448447 |
| **I'ch diddori** | John Arfon Jones 01994 240536 |
| **Cornel y Dysgwyr:**: | Albie Abbott 01239 831641 |
| **Tudalen y Plant:** | Llinos Mair Thomas |
| **Llewyrch i'm Llwybr:** | Eurfyl Lewis |
| **Cornel Coginio:** | Winnie James-Phillips 01239 831754 |
| **Cornel Llên:** | Marian Thomas 01994 230121 |

Newyddion, Lluniau, Erthyglau a Hysbysebion i'w hanfon erbyn **<u>10fed</u>** o bob mis, drwy e-bost os yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin, Cwmfelin Mynach, Hendygwyn-ar-Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a gyhoeddir yn Y Cardi Bach.

Argraffwyd gan:Gwasg Aeron Cyf. Aberaeron. 01545 571115

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'.

# Colofn y Mis

*gan Iola Wyn, San Cler*

Rai wythnosau yn ôl, daeth y newyddion trist am farwolaeth fy nghynorthwyydd meithrin yn Ysgol Rhydypennau. A hithau hefyd yn ffrind teuluol, roeddwn yn ei galw yn Anti Gwenda. Er mai pedair oed oeddwn i ar y pryd, rydw i'n cofio tipyn am y cyfnod gwerthfawr hwnnw, yng nghwmni Anti Gwenda, neu Mrs James yn swyddogol yn yr ysgol, a Mrs Ann Wynne Jones, ein hathrawes feithrin.

Roeddwn i'n dwli ar y sesiynau enwi ein bysedd – bys yr uwd, a phen y gogwr oedd fy ffefrynnau a phypedau bychain wedi eu creu ar gyfer pob bys. Ac roeddwn i wrth fy modd yn chwarae yn y pwll tywod, paentio fy nwylo a'u gwasgu ar ddarn o bapur, a cheisio meistroli'r dasg anodd iawn o dorri papur gyda siswrn, a finnau'n llaw chwith! Ac wrth gwrs, roedd bloeddio canu yn holl bwysig, a thamborîn, triongl a chlychau yn hanfodol yng nghanol y twrw.

Roedd tafodiaith unigryw gogledd Sir Aberteifi yn berwi trwy wythiennau Anti Gwenda. Ac yn anffodus, a minnau wedi gadael fy mro enedigol ers dros ddeng mlynedd ar hugain bellach, mae sawl gair unigryw wedi diflannu oddi ar fy ngwefusau. Damsgen (sathru) – dyna i chi air rhagorol, nad ydw i'n ei ddefnyddio mor aml bellach, er mi rydw i'n dal i ddweud sietin (perth) yn gwbl naturiol!

Roedd Anti Gwenda yn berson hynod o ddiwylliedig. Ac yno y gosodwyd y sylfeini i mi, fel sawl disgybl arall yn 'Ysgol Dop' Rhydypennau fel y byddem yn ei galw, gan fod yr uned feithrin ar wahân ym mhentref Llandre, a'r 'ysgol fawr' lawr yr hewl yn Bow Street.

Felly yn yr Ysgol Dop, fe dreuliais oriau yn cloddio gyda fy rhaw blastig i ddyfnderoedd y pwll swnd. Ac mewn gwrthgyferbyniad llwyr i'r tywod simsan a fyddai'n llithro trwy fy mysedd, fe osodwyd seiliau cadarn i ni gyd, wrth i ni gael ein harwain yn dawel a charedig ar hyd llwybr Cymreictod.

Taigwynion, nepell o'r Ysgol Dop oedd cartref Anti Gwenda gydol ei hoes. Clwstwr o dai sydd yma ar ben bryn, ac oddi yno mae modd gweld y môr tua chyfeiriad y Borth ac Ynys-las, sef yr ardal sy'n cael ei chysylltu â chwedl Cantre'r Gwaelod.

Ac mae'n debyg, yn ôl 'chwedl' fwy diweddar mai fy nhad yw'r person olaf i gael ei eni ar dir Taigwynion, ar aelwyd Goleufryn cyn iddo symud i ardal Aberhosan, ym Machynlleth.

Rhyw dri chwarter canrif ynghynt, roedd y Prifardd a chyn-Archdderwydd Cymru, JJ Williams yn byw yn Nhaigwynion am gyfnod byr tra'n blentyn.




Ac yng nghwmni fy nhad, byddem yn treulio oriau ar foreau Sadwrn yn bennaf, ar aelwyd Anti Gwenda yn Nhaigwynion, lle roedd un o englynion JJ Williams wedi ei fframio ar y wal. Mae'n amlwg iddo ei chyfansoddi tra'n syllu ar y machlud o Daigwynion. Ac yn ôl Anti Gwenda, cafodd ei gyfansoddi ar riniog ei chartref, Gorwel Deg:

*Gweld deryn gwyllt, gweld derwen gam - gweld maen*
*A gweld môr yn wenfflam.*
*Gweled brwyn ar dwyn dinam*
*A gweled mwg aelwyd mam.*

Ac wrth i'r haul fachlud ar ran holl bwysig o fy mhlentyndod i, mae fy nyled yn enfawr i Anti Gwenda a phob athro ac athrawes arall a osododd seiliau mor gadarn, a nhrochi mewn môr o Gymreictod.

## GOHEBWYR LLEOL

ALMA: Margaret Evans
01994 230761
BANCYFELIN: Merle Jones
01267 211300
eleanormerle@icloud.com
CAPELI BANCYFELIN a CANA
Parch, Beti-Wyn James
beti.wyn@icloud.com
BLAENWAUN: Tegwen James
01994 448223
CAPEL MORIAH (Blaenwaun) Meinir Eynon
01437 563540
meinireynon@gmail.com
CEFNYPANT: Valerie Davies
01994 448475
vdavies55@outlook.com
CLUNDERWEN: Delyth Roblin
07882 639867
delythroblin@outlook.com
CWMBACH: Jane Evans
01994 448790
teulujames@btinternet.com
CWMFELIN MYNACH: Nansi Evans
01994 448392
EFAILWEN: Angharad Booth Taylor
01994 419221
angharad.boothtaylor@btinternet.com
GELLIWEN: Peter Crowdie
01994 230033
peter.crowdie@btinternet.com
HENDY-GWYN: Heather Jenkins
01994 240138
jenkinsh2809@gmail.com
(Newyddion Tabernacl) Parch. Guto Llywelyn
01269 851655
gutollywelyn@hotmail.com
HENLLAN - FALLTEG: Sian Jackson
01994 240981
jacksonfawr@btinternet.com
LOGIN a CWM MILES Meinir Eynon
01437 563540
meinireynon@gmail.com
LLANBOIDY: Norah Heseltine
01994 448241
sales@shwldimwl.com
LLANDYSILIO: Delyth Roblin
07882 639867
delythroblin@outlook.com
LLANGLYDWEN: Jill Lewis
01994 419495
jill.lluest@gmail.com
LLANGYNIN: Susan Phillips
01994 231066
siwperiw@gmail.com
MEIDRIM: Patsy Lewis
01994 230369
talarwen@hotmail.com
PENYBONT: Linda Davies
01994 484657
lindadavies02061955@icloud.com
PWLLTRAP: Beti Wyn James
01994 230966
betiwynjames@aol.com
RHYDYCEISIAID: Doreen Adams
01994 240581
RHYDWILYM: Eilir Davies
01994 419649
eilirtyrhos@btinternet.com
SAN CLER: Beti Wyn James
01994 230966
betiwynjames@aol.com
TRELECH: Alyson Harries
01994 484359
alysonharries@btconnect.com

# LLEWYRCH I'M LLWYBR



*gan y Parch. Beti Wyn James*

**Sanau Sanctaidd!**

Am ryw reswm sydd y tu hwnt i fy neall i, rwyf wrth fy modd yn casglu a gwisgo sanau (socs) lliwgar. Mae'r diddordeb yma wedi bod gen i ers pan oeddwn yn blentyn! Nid wyf yn cofio'r un Nadolig heb o leiaf un pâr o sanau newydd lliwgar yn fy hosan Nadolig. Ac mae'r arfer yn parhau! A minnau nawr yn oedolyn, ac yn dal i hoffi fy sanau lliwgar, ond bellach rwy'n gweld cyfle i ddefnyddio fy hoffter o sanau lliwgar i gefnogi elsuennau gwahanol.



Rwy'n hoff iawn o brynu sanau Bamboo sy'n cael eu gwneud allan o ddeunyddiau organig a chynaliadwy. Diolch am y pâr hyfryd o sanau Bamboo gyda'r wisg Gymreig arnynt a dderbyniais yn anrheg Nadolig gan ffrindiau sydd yn amlwg yn gwybod am fy hoffter o sanau! Addas iawn ar gyfer Dathlu Gŵyl Dewi eleni!


Ymhlith fy nghasgliad mae sanau MacMillan sy'n dod allan ar gyfer y bore coffi blynyddol, sanau Diwrnod Plant Mewn Angen; sanau Sefydliad y Galon Brydeinig; sanau sy'n cefnogi elusen Ymddiriedolaeth Cŵn; sanau a brynwyd i gefnogi Parc Cenedlaethol Sir Benfro ac wrth gwrs fy sanau arbennig sy'n cael eu gwisgo ar 21 Mawrth bob blwyddyn sef Diwrnod Cenedlaethol Codi Ymwybyddiaeth o Syndrom Downs - i enwi ond rhai ohonynt.

STAND 4 SOCKS

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rwyf wedi bod yn prynu sanau sy'n cael eu cynhyrchu gan gwmni Stand 4 Socks. Mae'r cwmni hwn nid yn unig yn darpau sanau o bob lliw a llun (gan gynnwys fy sanau gyda baner Cymru arnynt sy'n cael eu gwisgo adeg gemau rygbi rhyngwladol!) ond hefyd am bob pâr o sanau rydych yn eu prynu, mae'r cwmni yn darpau pâr o sanau arbennig ar gyfer y digartref. Gallwch ddarllen yr hanes yn llawn ar eu gwefan:

https://www.stand4socks.com

Cawsom ychydig ddyddiau hyfryd yn Efrog Newydd dros y Flwyddyn Newydd. Yn wahanol i'r twristiaid arferol sy'n dod â magned i'r oergell, sioced neu feiro adre o'r wlad bell, fe newis i? Pâr o sanau Efrog Newydd wrth gwrs!



Pan oeddwn yn Llywydd Undeb yr Annibynwyr cefais wahoddiad i oedfa arbennig yn Neuadd Westminster, Llundain ar gyfer dathliad 50 mlynedd ers sefydlu'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig (URC), ac ie, cefais bâr o sanau'r dathlu yn rhodd! Gwnaed y sanau dathlu hyn gan gwmni Holy Socks – Faith on your Feet. Dyma gwmni sy'n cynhyrchu sanau gydag adnodau Beiblaidd neu ddelwedau Beiblaidd arnynt. Fel welwch fod y pysgodyn, sy'n hen symbol ar gyfer Cristnogaeth ar sanau dathlu'r URC. Cewch ddarllen mwy am yr Holy Socks ar y wefan hon https://holysocks.co.uk/about-us

Holy Socks
Faith on your Feet

*'Gwisgwch amdanoch yr Arglwydd Iesu' meddai'r Apostol Paul. Wel... fe ddechreua i gyda fy Sanau Sanctaidd!*

Ond o ddifri, mae modd cefnogi elusenau a phob math o achosion da drwy'ch traed! Beth amdani gyfeillion!

# Clonc a Phosau John Arfon

Bu bron imi anghofio cynnwys posau ichwi y mis hwn, ond diolch i Wyn, cefais fy atgoffa cyn y dyddiad cau,

Dyma atebion y Cwrwcw a'r Chwilrif y mis diwethaf:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| X | O | O | X | O | X |
| O | X | X | O | X | O |
| X | X | O | X | O | O |
| O | O | X | O | X | X |
| X | X | O | O | X | O |
| O | O | X | X | O | X |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | 6 | 5 | 9 | 4 | 2 | 3 | 1 | 7 |
| 3 | **2** | 1 | 6 | 5 | 7 | 8 | 4 | 9 |
| 4 | **9** | 7 | 3 | 8 | 1 | 5 | 6 | 2 |
| 1 | 5 | 9 | 2 | 6 | 8 | 4 | 7 | 3 |
| 6 | 7 | 8 | 4 | 3 | 9 | 2 | 5 | 1 |
| 2 | 4 | 3 | 7 | 1 | 5 | 9 | 8 | 6 |
| 9 | 1 | 2 | 8 | 7 | 4 | 6 | 3 | 5 |
| 5 | 3 | 4 | 1 | 2 | 6 | 7 | 9 | 8 |
| 7 | 8 | 6 | 5 | 9 | 3 | 1 | 2 | 4 |

**Dyma ddau arall i'ch diddori y mis hwn**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| O | | | X | | O |
| | | | X | O | |
| X | | | | X | |
| | | O | | | |
| | O | | | | |
| O | | | | | O |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | | | | 5 | 4 | 3 | 1 | |
| | | 5 | 2 | | 6 | | | 9 |
| 4 | **6** | | | | | 5 | 8 | |
| 2 | | | | 9 | 1 | | | 7 |
| | 7 | | | | | | 4 | |
| | | | 7 | 2 | | | | 3 |
| 7 | 4 | 8 | | | 2 | | 9 | 5 |
| | | | 9 | | 8 | 7 | 3 | |
| | 9 | 3 | 5 | | | | | 8 |

Y Pôs cyntaf y mis hwn yw rhoi gair yn y canol sydd yn cysylltu y ddau air o'i gwmpas.

e.e. Gogledd ----- Fydd, Cymru yn y canol;
Crib ---- Gwynt, dylech roi Ceiliog yn y canol.


Pob hwyl ichwi gyda'r canlynol.

1. Papur ------ Ddyfodiad
2. Carnedd ------ Iwan
3. Eirin ------ Magdalen
4. Eisteddfod ------ Enw
5. Cadair ------ Sbar
6. Dail ------ Afalau
7. Palu ------ Golau
8. Caer ------ Llun
9. Parti ------ Aur
10. Clefyd ------ Lwmp
11. Noswyl ------ Llawen
12. Prif ------ Eilradd
13. Codwr ------ Gwlad
14. Cerdyn ------ Hapus
15. Aderyn ------ Gwellt

**Yr ail bôs yw cwblhau y Chwilrif Mawr**

Mae'n rhaid i bob llinell, colofn, a'r blwch 4x3 gynnwys yr holl rifau o 1 i 12.

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 6 | | | | | | 7 | | 8 | | 4 |
| 8 | 4 | | | 1 | 12 | | | 7 | | | 6 |
| | 11 | | 10 | | 2 | 6 | | | | | 9 |
| | 7 | 8 | | | 10 | | | | | | |
| | | | 2 | 7 | | | 6 | 1 | 11 | 8 | |
| | | 1 | 4 | | 11 | 9 | | 10 | 6 | | 3 |
| 4 | | 9 | 5 | | 1 | 2 | | 12 | 7 | | |
| | 12 | 2 | 11 | 10 | | | 9 | 8 | | | |
| | | | | | | 7 | | | 2 | 4 | |
| 10 | | | | | 7 | 11 | | 6 | | 12 | |
| 5 | | | 7 | | | 12 | 4 | | | 10 | 8 |
| 6 | | 12 | | 9 | | | | | | 11 | |

# Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr,
Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarllenwyr,

Gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n weddol iach a diogel. Diolch i'r nifer ohonoch sydd eisoes wedi ymaelodi â'r clwb a braf yw cael croesawu aelodau newydd i'n plith eleni eto. Serch hyn, gofynnaf yn garedig i'r ffyddloniaid hefyd i ymaelodi mor gynted ag y bo modd, er mwyn sicrhau dyfodol llewyrchus i'r clwb ac yn hynny o beth, cefnogi'n papur bro. Fe gofiwch chi fod ffurflen ymaelodi'n amgaeedig yn rhifyn diwetha'r Cardi Bach.

Mae dod yn aelod yn rhwydd - danfonwch siec i mi am £10 gyda'ch enw a chyfeiriad, neu allwch dalu drwy system BACS y banc. Y manylion sydd angen arnoch i neud hyn yw 40-46-27 a 91020765 a'ch enw chi fel cyfeirnod. Os ydych am dalu fesul archeb banc, cysylltwch â mi am ffurflen.

Diolch i chi gyd am eich cefnogaeth a chadwch yn ddiogel.

*Rhian*

## Colofn Llên *gan Marian Thomas*

Mae rhaglen Ffion Dafis ar y radio bob pnawn Sul yn drafodaeth ddifyr ar y celfyddydau yng Nghymru. Diwedd Ionawr bu Bethan Gwanas yn trafod â hi ei phryder nad oes cymaint yn darllen nac yn prynu llyfrau Cymraeg a neb meddai yn ysgrifennu nac yn darllen adolygiadau!

Canmolwyd dau gyhoeddiad diweddar yn arbennig; yn gyntaf, hunangofiant creadigol y gomediwraig Mel Owen, sef Oedolyn (ish!) am y gwersi mae wedi'u dysgu. Mae ar fin troi'n 30 oed a bernais fy mod i'n rhy hen o lawer i ddysgu gwersi ganddi ond byddai'n siŵr o apelio at gynulleidfa iau oedd barn y ddwy. Yr ail oedd nofel gan awdures newydd, Gwenno Gwilym sef V a Fo. Roedd y ddwy wedi gwirioni ar y nofel hon - un 'ffres', yn 'torri tir newydd' a doedd yr un o'r ddwy wedi disgwyl mwynhau nofel gyda thalpiau o Saesneg ynddi. Felly rhaid oedd prynu hon.

Mae'n nofel, feiddgar am deulu dwyieithog, gyda dau o blant a'r rhieni wedi ymadael ac yn wir, mae'r defnydd o'r Gymraeg a Saesneg yn hafal ynddi a'r ysgrifennu yr un mor fedrus yn y ddwy iaith. Disgrifir golygfeydd a digwyddiadau o safbwynt y ddau, sef V - Veda a Rob, y Sais ysgol breifat. Mae'r ddeialog yn fyrlymus a chryn dipyn o hiwmor wrth drosi neu gam ddeall dywediadau. Mae ambell bennod hwnt ac yma yn taflu cip yn ôl ar hanes y ddau. Nid yw hon ar gyfer y puryddion iaith ac ni fyddai'n cael ei gwobrwyo am y Daniel Owen ond mae'n 'rom com' darllenadwy dros ben. Ceir rhybudd ar y clawr bod y nofel yn cynnwys' lot o Wenglish a lot o regi' ac yn 'cynnwys themâu heriol.' Gwir hynny ond mae'n unigryw a dim ond ni'r Cymry Cymraeg gall ei mwynhau wrth gwrs a'i dwyieithrwydd yn adlewyrchiad o gymaint o deuluoedd. Mae'r cymeriadu'n effeithiol a chydymdeimlad y ddwy ar y radio gyda Rob ond barnwch chi drosoch eich hunain.

Tybed a welsoch chi Bethan Mair yn trafod llyfrau llesiant ar rifyn Pnawn da mis diwethaf? Dyma'r chwech y cyfeiriodd atynt, rhai fyddai'n addas fel rhodd i deulu neu ffrindiau. Roeddwn wedi dotio at un a gefais yn Eisteddfod y llynedd – Golau Arall gan Glyn Price sydd yn arlunydd tirluniau a chanddo brofiad fel gweithiwr cymorth ieuenctid. Mae wedi gosod llun gyferbyn â geiriau calonogol - llyfryn bychan hyfryd i oleuo ein bywydau. Mae Dynol Iawn yn gasgliad o ysgrifau gan 12 unigolyn sydd wedi'u cyffwrdd gan Awtistiaeth ac ADHD ac un arall gan olygydd y gyfrol sef Non Parry o Eden. Roedd ei chyfrol Paid â Bod Ofn am iechyd meddwl ar restr Llyfr y flwyddyn 2022. Casgliad o 7 stori fer a 7 cerdd/cân ynglŷn â llesiant yw Haf o Hyder, wedi eu hysgrifennu gan rai awduron adnabyddus fel Eurig Salisbury a Llŷr Gwyn Lewis ac eraill gan awduron newydd megis Nia Morais ac Ifan Pritchard. Mae Lwmp gan Rhian Wyn Griffiths yn gofnod dirdynnol, gonest ac emosiynol am ei phrofiad o dderbyn diagnosis o gancr y fron a hithau' n benderfynol y byddai'n trechu'r drwg. Georgia Ruth yw awdur Casglu Llwch, cyfrol ddyrchafol am brofiadau o fod yn fam. Proffwydodd yr adolygydd y bydd y gyfrol hon ar restr Llyfr y flwyddyn eleni.

Dim ond gobeithio bod rhywrai ohonoch wedi darllen yr adolygiad hwn ac wedi eich ysgogi i ddarllen llyfr Cymraeg neu i brynu un yn rhodd.

THE FLORAL GOAT
blodau naturiol tymhorol hardd
Karen MacKechnie
Crug y Deri
Llandysilio
SA66 7JJ
07774 715059
karen@floralgoat.co.uk

*Yn tyfu wrth ochr yr Afon Conin*
*Ewyn rhydd flodeugerdd ffarwel*

Delwedd
07814543634
*Salon Harddwch a Chyflenwol*
Crymych
Triniaeth o safon mewn
awyrgylch gartrefol gan Nia

Rosemarie Davies
Cyfrifydd Technegol
GWASANAETH
CADW CYFRIFON
Fferm Blaenwaun, Hebron
Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799
*Yn drwyddedig gan*
*Association of Accounting Technicians*

# Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las 2026

Cynhelir Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las, yn Sir Benfro ar ddechrau mis Awst 2026. Mae'r dalgylch yn cynnwys Sir Benfro, de Ceredigion a gorllewin Sir Gâr.

Gŵyl G**yhoeddi**
Yn draddodiadol, mae'r Orsedd yn cyhoeddi bwriad yr Eisteddfod i ymweld ag ardal o leiaf blwyddyn a diwrnod cyn cychwyn y Brifwyl, er mwyn croesawu'r Eisteddfod i'r ardal a chroesawu'r ardal i fod yn rhan o'r Eisteddfod**.** Eleni cynhelir y Cyhoeddi yn Arberth ar fore dydd Sadwrn, Mai 17eg 2025, gyda'r manylion llawn i ddilyn.

Bydd y digwyddiad yn cychwyn gyda gorymdaith o amgylch y dref ac yna cynhelir seremoni dan ofal Gorsedd Cymru, pan fydd Mererid Hopwood, yr Archdderwydd yn derbyn y copi cyntaf o'r Rhestr Testunau (gyda holl fanylion cystadlaethau llwyfan a chyfansoddi Eisteddfod 2026) o law John Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith. Unwaith y mae'r copi wedi'i rannu, mae'r wybodaeth yn gyhoeddus a'r gyfrol yn mynd ar werth mewn siopau ar hyd a lled Cymru.

Mae criw o blant y dalgylch yn cymryd rhan yn y seremoni hefyd, gan ddawnsio i ddathlu dyfodiad yr Eisteddfod. Mae'r Ddawns yn rhan liwgar o holl seremonïau'r Orsedd ac wedi'i seilio ar batrwm casglu blodau o'r caeau.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae grwpiau cymunedol wedi bod yn awyddus iawn i ymuno yn yr orymdaith gyda thros 650 o bobl yn rhan o'r orymdaith yn ardal Rhondda Cynon Taf a thros 400 wedi ymuno i gerdded yn Wrecsam y llynedd. Bydd yr orymdaith yn para tua hanner awr

Mae'r Orsedd yn gyfrifol am y seremonïau yn ystod wythnos yr Eisteddfod, sydd yn rhan o'r ŵyl ehangach sy'n ddathliad lliwgar, croesawgar, cyfeillgar a chynhwysol o'n diwylliant a'n hiaith yma yng Nghymru.

**Gwirfoddolwyr**
Rydym ni'n chwilio am griw i helpu drwy wirfoddoli yn ystod Gŵyl Gyhoeddi'r Eisteddfod, Byddwn angen o leiaf 20 o wirfoddolwyr i'n helpu ni yn ystod yr orymdaith a'r seremoni ei hun, felly beth am ofyn i deulu a ffrindiau ymuno wrth i chi gofrestru i fod yn rhan o'r tîm?

**Pwyllgorau Apêl**
Rydym hefyd angen eich cymorth i'n cynorthwyo gyda'r gwaith o sefydlu pwyllgorau apêl er mwyn bwrw ati i godi arian a chodi ymwybyddiaeth ar draws dalgylch yr Eisteddfod.
Mae'r ardal yn cynnwys Sir Benfro, de Ceredigion a gorllewin Sir Gâr, ac wedi'i rhannu'n un-ar-ddeg o ddalgylchoedd clir, sef: Aberdaugleddau, Abergwaun, Aberteifi, Dinbych y Pysgod, Emlyn, Hendy-gwyn ar Daf, Hwlffordd, Llandysul, Penfro, Preseli, a Thyddewi.
Mae'r dalgylchoedd i gyd yn cynnwys pentrefi, wardiau a threfi, ac rydyn ni'n gobeithio y daw'r gymuned ynghyd ym mhob ardal i drefnu gweithgareddau a chydweithio er mwyn cyrraedd targed ein Cronfa Leol sy'n £400,000.
Rydym ni'n chwilio am dîm o gydlynwyr i arwain y gwaith ar draws yr ardal, ynghyd â llu o wirfoddolwyr lleol sy'n awyddus i fod yn rhan o'r gwaith trefnu.

**Noddi gwobrau**
Mae modd i unigolion a cymdeithasau noddi gwobrau yr Eisteddfod ac mae hyn yn ffordd wych o godi arian o fewn y pwyllgorau apel. Mae swm o £18,000 eisoes wedi ei godi, sy'n cael ei benodi o fewn ardal o ddewis y noddwr.


Am fwy o fanylion ar sut i wirfoddoli, cynorthwyo gyda'r pwyllgorau apel neu cyfrannu gwobr tuag at Eisteddfod Y Garreg Las 2026, ymwelwch â gwefan yr Eisteddfod – www.eisteddfod.cymru a cliciwch ar 2026.

**LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU**
Oriel Glan-yr-afon, Hwlffordd, SA61 2AN
Dydd Mawrth 11eg Mawrth 2025
5 o'r gloch
**Sgwrs gan**
**MERERID HOPWOOD**
yn archwilio sut yr anfonodd 390,296 o fenywod o Gymru Apêl at fenywod yr Unol Daleithiau er mwyn ceisio dod â heddwch i'r byd.
Bydd hi'n gofyn beth ellir ei ddysgu gan y weithred hon 101 o flynyddoedd yn ddiweddarach.
Mynediad am ddim ond angen tocynnau oddi wrth https://www.ticketsource.co.uk/llgcnlw/t-jznqdzx

WYN DAVIES a'i FRODYR
ADEILADWYR
Golygfa'r Cwm
Ffynnonwen
Login
Hen Dŷ Gwyn ar Daf
Ffôn: 01437 563300


IFAN DAVIES
Saer Coed


Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA
07875 540469


W. J. KENNETH DAVIES
ei Feibion a'i Ferch
SEIRI COED
a
THREFNWYR ANGLADDAU
Blaenwern, Clunderwen
Ffôn: 01437 563319

# CORNEL Y DYSGWYR

*gan Albie Abbot*

Dyma rywbeth ar gyfer mis y Corrach. Mae'n rhaid i chi lenwi y bylchau gyda ffurfiau cywir y ferf bod, e.e rhif 1 - maen.


Pob lwc, *Albie*

**FFURFIAU'R FERF BOD**

1. ……………………………….nhw yn y tŷ ar hyn o bryd.
2. Beth am alw heno, achos……………………………i gartref erbyn 5 o'r gloch.
3. Ble……………………………………….chi neithiwr?
4. ……………………………………….e'n symud pe bai e'n gyfoethog?
5. ……………………………………….nhw o gwmpas Ffrainc yn yr haf.
6. ……………………………………….e ddim yn hoffi'r gêm welodd e ddoe.
7. ……………………………………….hi'n ifanc neu yn hen ar hyn o bryd?
8. ……………………………………….chi yma cyn cinio yfory?
9. Fe hoffwn i pe……………………………………….i'n dal.
10. ……………………………Tom ddim yn arfer bwyta panas pan oedd yn blentyn.
11. Ydych chi'n credu y ……………………………hi'n sych yfory?
12. ……………………………e'n gweithio yn y banc am gyfnod cyn dod yma?
13. …………………………… ti'n gobeithio dod eto?
14. …………………………… nhw o gwmpas y dref neithiwr.
15. ……………………………di'n hwyr os na redi di.
16. ……………………………Mari ddim yn y gwaith y bore 'ma pan gyrhaeddais i.
17. …………………………… ti'n gwerthu hwn am bunt pe baet ti yn fy lle i.
18. …………………………… ni'n arfer bod yn hapus yn yr ysgol.
19. ……………………………ti'n rhedeg pe gwelet ti ysbryd?
20. ……………………………ni'n crwydro o gwmpas Ewrop yr adeg yma y llynedd.
21. Fe fyddaf fi yno os……………………………di yno hefyd.
22. ……………………………ti'n credu fy mod i'n iawn y tro hwn?
23. Roedd hi'n wyntog, ond……………………………hi ddim yn bwrw glaw.
24. Os bydd hi'n oer,……………………………ni'n aros yn y tŷ.
25. Rwy'n sicr……………………………fi sy'n iawn.
26. Os……………………………hi'n wlyb, dydw i ddim yn dod.
27. Ble……………………………chi ar eich gwyliauy llynedd?
28. Fe ddôn nhw pan……………………………nhw'n well.
29. Mae e'n dweud taw o Gaerdydd……………………………e'n enedigol.
30. Chysgaf i ddim tan y ……………………………hi yn y tŷ.


ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN
01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk
UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO




DAVIES
Builders Merchants
Cyflenwyr ADEILADU a D.I.Y
Arddangosfa ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar agor

Ffon
Hendygwyn: 01994 240 228
San Cler: 01994 230 239
www.daviesbm.co.uk




HUW OWEN
CLUDIANT

Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR
☎: 01437 563725 • 07798 885305

CWMNI PEIRIANNEG HENDYGWYN AR DAF CYF.
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)
GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW
Uned B
Heol y Gorllewin
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937


# MERCHED Y WAWR

## Cangen San Cler



Daeth yr aelodau ynghyd i'r Cinio Blynyddol yn Yr Hen Ysgol ar ddydd Sadwrn, Ionawr 18fed. Croesawyd pawb gan yr is-lywydd, Eileen, yn enwedig Bethan Picton-Davies, Is-lywydd y Mudiad, ei mam, Joan yn un o'n haelodau. Offrymwyd gras gan Iona cyn i bawb fwynhau cinio blasus dros ben a baratowyd gan Sue a'i staff o'r Hen Ysgol.

Difyr iawn oedd gwrando ar Bethan yn son am ei bywyd gyda chymorth sleidiau. Gwelwyd lluniau ohoni yn blentyn yn Ysgol Glasfryn ac yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Gangen megis y "floats" yn ngharnifal San Cler yn y 90au. Rhannwyd ei phrofiadau yn ei gyrfa, gyda'r Ffermwyr Ifanc a'i theulu yn ogystal â'r holl weithgareddau mae wedi ymgymryd â nhw gyda Merched y Wawr Ffynnongroes, Rhanbarth Penfro ac yn Genedlaethol.



Cyflwynwyd Bethan â threfniant hyfryd o flodau gan Lilwen. Diolchwyd iddi, ar ran y Gangen, gan Beti-Wyn, hefyd i Sue a'i staff o'r Hen Ysgol, i Marian a Jane am drefnu, i Lilwen am baratoi'r blodau ac i bawb a wnaeth gynorthwyo i wneud y prynhawn yn un pleserus iawn.

Cofiwn yn gynnes iawn at dair o'n haelodau, sef Heulwen, Annalyn a Rhian sy'n anhwylus ar hyn o bryd.

**Clwb Darllen**

Cyfarfu'r Clwb Darllen ar Chwefror 3ydd a chafwyd trafodaeth ddifyr am y gyfrol "Dim ond un" gan Meleri Wyn James, nifer yn gweld y nofel yn debyg i arddull Agatha Christie. Bydd y Clwb Darllen yn cyfarfod nesaf ar Ebrill 7fed ac yn trafod hunangofiant Endaf Emlyn "Salem a fi". Croeso i unrhyw un ymuno gyda ni.

Aeth dau dîm o'r Gangen i gystadlu yng Nghwis y Cardi Bach. Llongyfarchiadau i un tîm ar ennill y cwis a'r llall a'r ddod yn drydydd.

---

## Cangen Gronw

Prynhawn Mercher 29ain Ionawr croesawodd Meinir Eynon pawb i'r cyfarfod misol ym mwyty-Roadhouse, Hendygwyn ar daf.

Hyfryd oedd cael gwybod bod Jane Evans yn ôl yn ei chartref a dymunwyd yn dda iddi.

Cydymdeimlwyd â Marion Davies sydd wedi colli ei gŵr ar ôl cyfnod hir o afiechyd.

Estynnwyd cyfarchion hwyr ar benblwydd arbennig Eirwen ar ddiwedd Rhagfyr, a chyfarchion cynnar i Val sydd hefyd yn dathlu penblwydd arbennig ym mis Chwefror. Ar ôl pryd o fwyd flasus gan Lucas a'u staff trafodwyd yr achlysur bod y gangen yn dathlu hanner canfed penblwydd eleni ym mis Medi.

Cafwyd prynhawn hyfryd a digon o amser i gael clonc a dal fyny a ffrindiau.

Bydd cyfarfod mis Chwefror ar ddydd Iau 27ain yng Nghaffi Beca am 1 o'r gloch i ddathlu Gŵyl Dewi. Y siaradwr gwâdd yw Vernon Beynon. Edrychwn ymlaen.

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau
Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid
Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326


DAVIES
Y GWRES
A'I FERCHED
Plymio a Gwresogi
07792 947227
ebost: hyweldavies65@gmail.com


T. D. LADD
a'i GWMNI
SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen
Ffôn: 01437 563217

**Noson Cwis y Cardi Bach**

Aeth dau dîm i gynrychioli'r gangen yn y cwis ar nos Wener, Chwefror 7fed, sef Val, Meirwen, Susan a Wenfys; Llinos, Gwenda, Rhiannon a Meinir. Er nad yn fuddugol, cafwyd tipyn o hwyl wrth ateb y cwestiynau.

## Cangen Hendygwyn

Buon ni'n ddigon lwcus i gael Fflur Dafydd i gytuno i ddod i siarad â ni yn ein cyfarfod cyntaf 'leni ar Ionawr 21ain. Margarette Hughes gafodd y fraint o'i chroesawu ac wrth ei chyflwyno soniodd eu bod eu dwy wedi cael eu magu yn ardal Penrhiwllan ac Aberbanc ac wedi mynychu'r 'ysgol ar y bryn' yn Llandysul ond nid ar yr un adeg wrthgwrs!

Rhoddodd Fflur fwy o'i hanes i ni a soniodd am ei llenyddiaeth megis y ffilm 'Y Llyfyrgell', a'i chyfresu teledu - 'Y Parch' a'r 'Amgueddfa', heb son am ei llyfrau.

Roedd hi wedi dod a'i gitar gyda hi ac fe gawson ni ambell i gân fach fan hyn a fanco hefyd. Roedd pawb yn gytun ein bod wedi cael prynhawn wrth ein bodd a diolchodd Margarette yn gynnes iawn iddi am roi o'i hamser prin i ddod i'n diddanu.

Christian Donovan a Pat Price oedd wrth y te a danfonodd Ann Glanville ffurflen o gwmpas parthed Cinio'r Llywydd yn y De. Bydd Jean, Ann a Margarette yn mynd ar ran y gangen. Pleser mawr hefyd oedd croesawu aelod newydd i'n plith sef Elonwy Phillips.

Bydd ein cyfarfod nesa yn y Ganolfan ar 18.02.25 pryd y disgwylir Bethan Picton Davies, ein his-lywydd cenedlaethol a'i chwaer yng nghyfraith Delyth i roi arddangosfa coginio i ni.



Fflur Dafydd yn tynnu hunlun ohoni gyda aelodau'r gangen.

## Clwb Gwawr Hendygwyn

Bu aelodau o Glwb Gwawr Merched Hywel yn rhan o brosiect Sir Gâr o gasglu stondinau llaeth yn yr ardal. Cafwyd hyd i nifer er mwyn sicrhau eu bod ar gof a chadw. Diolch i bawb a wnaeth roi o'u hamser i fynd o gwmpas yn gwneud y gwaith yma.

Ymwelwyd â lle bwyta Veganishmum ger Drefach Felindre yn ddiweddarach. Cafwyd bwyd llysieuol/figanaidd bendigedig. Diolch i Rob a Jayne am y croeso cynnes.



Cynhaliwyd gyfarfod mis Tachwedd yng Nghanolfan Hywel Dda, pan ddaeth cwmni Cwyr Cain i ddangos eu canhwyllau. Cafwyd gyfle i ddechrau siopa Nadolig gyda'r nwyddau hyfryd. Diolch i Eleri ac Emma am drefnu.

Ni chafwyd cyfarfod ym mis Rhagfyr oherwydd prysurdeb pawb a phenderfynwyd fynd allan am fwyd ym mis Ionawr.

Felly, ar nos fercher olaf mis Ionawr, aethom yn griw dedwydd i'r Bush Robeston Wathen am bryd o fwyd. Cafwyd bryd blasus dros ben a chyfle am glonc a chwis. Diolch i Mererid a Heather am drefnu.

Ar nos Wener, Chwefror 7fed, cynrychiolwyd y clwb Rhian J, Emma, Nia a Heather yng Nghwis y Cardi Bach. Cafwyd noson hwylus iawn a chwis difyr iawn gan Iola Wyn.

Cyfraniad
Beryl Thomas, Llandysilio £20
*Diolch yn fawr*




R. M. JONES
CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD
Bridge End House
Clunderwen
Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com

GWASANAETH CEIR HENDYGWYN
Canolfan atgyweirio ceir
Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts ayyb
**Dai James - Steven Owens**
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r Ffynnon, Hendygwyn ar Daf
01994 240230 / 07972 725193

*Ymgyrch codi cerflun Twm Carnabwth - parhad o dudalen 1*

Dyma restr o'r unigolion, busnesau a chynghorau cymuned sydd wedi cyfrannu yn ystod y ddau fis diwethaf, rydym yn ddiolchgar iawn iddynt ac yn gwerthfawrogi eu cefnogaeth a'u haelioni yn fawr iawn.

£500 – Mrs Barbara Morris, Cold Blow / Princess Gate?
£1000 – Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd
£1000 – Bwydydd Castell Howell

Rydym dal yn apelio am gyfraniadau ariannol, i'n galluogi gyrraedd at y nod. Mae modd gwneud hyn drwy daliad BACS uniongyrchol mewn i gyfrif banc CCM Cymdeithas Cwm Cerwyn ar y manylion canlynol – 30 91 65 01036767, cyfrannu drwy'r ddolen Gofundme ar dudalen facebook Codi Cerflun Twm Carnabwth, neu drwy anfon siec yn daladwy i CCM Cymdeithas Cwm Cerwyn ataf i, Eurfyl Lewis, Lluest, Llanglydwen, Hendy Gwyn ar Daf, SA34 0XP. Diolch ymlaen am eich cefnogaeth, gwerthfawrogir pob cyfraniad yn fawr iawn.



Mae cyfle hefyd i brynu print o waith Meirion Jones, "Whalu'r Iet yn Shils" (gweler gyferbyn) am £250 – bydd yr elw yn mynd tuag at y gronfa, cysylltwch ag Eurfyl ar 07980 883924 os hoffech archebu.

Dydd Gŵyl Dewi

Mae Mawrth y cyntaf eto wrth y drws
A'r Cymry'n ymwybodol iawn o'u tras,
Daw'r merched allan yn eu gwisgoedd tlws,
A chenir yr hen anthem gyda blas;
Fe gofir am ein Nawddsant drwy'r holl wlad,
A gwelir Cymry alltud yn dod nôl
I gymdeithasu gyda'r werin fad
A roddodd etifeddiaeth yn eu côl.
Mae'r het fawr ddu yn nodweddiadol hardd,
A'r cennin gwyrdd ar fynwes pob rhyw un,
A'r cynghaneddion ar wefusau'r bardd,
Mewn cinio gwir Gymreig ei naws a'i lun,
Nid digon Dydd Gŵyl Dewi yn ein gwlad
Ymladdwn am ein rhyddid, er sarhad.

*Nansi Evans*

# Dawnswyr Talog

Dyma lun o ginio blynyddol Dawnswyr Talog a gynhaliwyd ar nos Wener, 24ain Ionawr yng Nghlwb Rygbi Castell Newydd Emlyn. Cafwyd noson hyfryd - diolch i bawb fu wrthi'n trefnu. Y noson ganlynol, sef noson Santes Dwynwen, bu'r dawnswyr yn diddanu mewn twmpath yn Neuadd Tysul. Cyfle i godi i arian i Gwyl Tysul, a mor braf gweld y llawr dawnsio'n llawn.

Cofiwch, os hoffech gael cwmi Dawnswyr Talog mewn twmpath, noson gymdeithasol neu mewn cyngerdd danfonwch e-bost at: post@dawnswyrtalog.org.uk - neu ffoniwch Llŷr Griffiths ein hysgrifenydd ar 07399 744092.



## Cyfraniadau Cynghorau Tref a Cymuned – 2024

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned Llanboidy | £500.00 |
| Cyngor Cymuned Llanwinio | £250.00 |
| Cyngor Cymuned Bro Trelech a'r Betws | £100.00 |
| Cyngor Cymuned Llangynin | £100.00 |
| Cyngor Tref San Cler | £200.00 |
| Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd | £250.00 |
| Cyngor Cymuned Henllanfallteg | £100.00 |
| Cyngor Tref Hendy Gwyn | ........... |
| Cyngor Cymuned Clunderwen | £200.00 |
| Cyngor Cymuned Meidrim | ........... |
| Cyngor Cymuned Llandysilio | £25.00 |
| **Cyfanswm** | **£1725.00** |

Diolch i'r 8 Cyngor Tref a Cymuned am eu cefnogaeth i'r Cardi Bach, gwerthfawrogir hyn yn fawr iawn.

# TOMOS LEWIS - Dail Pren

Braf yw clywed am bobl ifanc yn sefydlu busnes newydd. Mae Tomos Lewis wedi sefydlu busnes yn creu nwyddau o bren o'r enw Dail Pren.
Dyma ei holi ..........



**Rho ychydig o dy gefndir i ni… o le wyt ti'n dod ac ers pryd wyt ti'n byw yn Rhydargaeau?**

Fy enw i yw Tomos Lewis. Ges i fy magu yn Llanglydwen ar y ffin rhwng Sir Gâr a Sir Benfro. Ges i fy addysg yn Ysgol Gynradd Beca, Efailwen cyn symud 'mlaen i Ysgol Y Preseli. Erbyn hyn, dwi'n athro Dylunio a Thechnoleg yn Ysgol Caer Elen yn Hwlffordd a dwi bellach yn byw yn Rhydargaeau gyda fy mhartner, Elen, ers tua 9 mis.

**Ers pryd wyt ti'n ymddiddori mewn gwaith pren?**

Dwi 'di ymddiddori mewn gwaith pren ers yn blentyn ifanc. Ffordd unigryw Dad-cu o ofalu ar ôl fi a fy mrawd wedd rhoi bocs o hoelion a morthwyl i ni a gadael ni i fwrw nhw mewn, un ar ôl y llall. 'Mond pump oed wên i ar y pryd! Er hyn, mae'r diddordeb o weithio gyda pren wedi aros gyda fi a fy mrawd ers hynny.

**Beth yw rhai o'r hoff bethau yr wyt ti wedi eu creu?**

Ers sefydlu'r busnes, Dail Pren, dwi 'di cael y cyfle i wneud amrywiaeth eang o bethau a dwi o hyd yn mwynhau creu arwyddion priodas unigryw a mi wnes i fwynhau creu addurniadau Nadolig o gymeriadau yn ddiweddar. Ond cyn dechrau'r busnes, ges i gyfle arbennig i ddylunio a chreu Cadair i Eisteddfod Ffermwyr Ifanc Cymru nôl yn 2022 pan oedd ffederasiwn Sir Benfro yn gwesteio'r Eisteddfod. Dyma un o fy uchafbwyntiau hyd yn hyn.

**Beth yw hanes y cwmni Dail Pren?**

Fe wnes i sefydlu Dail Pren nôl ym mis Chwefror 2024. Cwmni sydd yn dylunio a chreu pob math o grefftwaith, addurniadau ac arwyddion allan o bren. Dwi hefyd yn mwynhau cymryd 'mlaen heriau a comisiynau gwahanol ac wedi dechrau creu nifer o wobrau yn ddiweddar i ddigwyddiadau gwahanol.


**Sut mae'r busnes yn mynd hyd yn hyn?**

Mae'r gefnogaeth dwi 'di cael ers sefydlu'r busnes wedi bod yn wych a dwi'n gwerthfawrogi pob archeb hyd yma. Roedd hi'n grêt i fynychu sawl Ffair Nadolig yn ddiweddar ac hyrwyddo a gwerthu fy nghynnyrch i bobl newydd. Ar ôl blwyddyn cyntaf llwyddiannus, y gobeithion nawr yw i ryddhau mwy o gynnyrch newydd eleni.

**Sut y gall pobl archebu'r nwyddau?**

Dwi'n cymryd archebion trwy tudalen Facebook ac Instagram Dail Pren ac yn gwerthu ar wefan Etsy hefyd. Mae hefyd modd cysylltu trwy anfon e-bost i dailpren@hotmail.com





# RHYDWILYM

Diolchwn yn fawr i Shan Jones, ac i Orinda Roberts am wasanaethau Mis Ionawr.

Trefn Oedfaon
Mawrth
9 fed: 10.30. Cymun - Parch Wyn Morris
23ain: 10.30. Wyn Thomas
Ebrill
6ed: 2.00 Parch Ken Thomas
20fed: 2.00 Cymun - Parch Judith Morris

Falch bod Dennis Lewis yn gwella ar ôl cael triniaeth yn Ysbyty Treforys yn ddiweddar.

Mae'r gwaith ar y capel a'r adeiladau yn dod yn ei blaen yn eitha hwylus. Edrych ymlaen i gael cynnal gwasanaethau yn y capel eto.

# MEIDRIM

**Henoed**
Cynhaliwyd ein Cyfarfod Blynyddol yn Neuadd Ieuenctid Meidrim. Yn dilyn, cawsom brynhawn o chwarae bingo dan arweiniad Glyn Rees, Sancler. Roedd yn brynhawn hwylus a phawb wedi mwynhau.

Ar y 4ydd o Fawrth byddwn yn cael cawl yn Neuadd Ieuenctid Meidrim i ddathlu dydd Gŵyl Dewi. Pawb i ddod â basin a llwy eu hun. Yn rhoi raffl - Patsy Lewis, Lilian Rees, Ambrose Lewis a Violet Thomas.

# BLAENWAUN

Estynnwn ein cydymdeimlad â Marion Davies, 5 Heol Siôn sydd wedi colli ei gŵr Winston. Rydym yn meddwl amdani hi a'r plant a'r teulu ehangach.

....hefyd â Michael, Nia, Manon a Beca Llewellyn, Berllan ar farwolaeth tadcu Michael, sef Aneurin Lewis yng nghartref Glyn Nest, Castell Newydd Emlyn ar ddechrau Chwefror.

**Moriah**
Diolch i'n gweinidog am ei wasanaeth ar 2il Chwefror. Thema yr oedfa oedd "Undod", Pwnc sydd yn achosi tipyn o dor-calon yn y byd heddi.

Croeso adref i Jane Evans, Penddol ar ôl cyfnod yn yr ysbyty ac yng nghartref yn Llanymddyfri.

# LLANGYNIN

**Priodas Ddiemwnt**



Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Gareth a Lynda Thomas, Pant-glas, a oedd yn dathlu 60 mlynedd o briodas ar ddiwedd mis Ionawr. Yn anffodus maent wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar ac mae Gareth wedi treulio amser yn yr ysbyty. Dymunwn wellhad buan i'r ddau ohonynt.

**Diolch**
Mae Don Phillips, Gorwelion, am ddiolch i bob un am yr holl gardiau, anrhegion a chyfarchion a dderbyniodd ar ei ben blwydd arbennig yn 80 oed. Diolch am bob ymweliad ac am bob galwad ffôn. Cafodd ddiwrnod wrth ei fodd yng nghwmni ei deulu a'i ffrindiau.

**Penblwyddi arbennig**



Penblwydd cyntaf hapus i Elin Jordan Moffatt, Blaenpant,Llangynin, oddi wrth mam, dad, Berwyn a Gruff y ci!

**CJ Waste cyf.**
Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com
Prisiau ardderchog
Gwagio tanciau septig / carthbyllau
Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr, SA33 4JZ

Carwyn a Sian James
J. K. Lewis a'i Fab
Glandy Cross.
SPAR
*Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol, Gwin a Chwrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy, Loteri a phob peth fydd angen arnoch ar unrhyw achlysur.*
*Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.*
*Dydd Sul - 7 y.b. - 6 y.h.*
Ffôn: 01994 419230

*G WILLIAMS*
*a'i FEIBION*
Monumental Masons
*SEIRI MEINI COFFA*
Pentre Yard
San Clêr
Ffôn: (01994) 231390

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Matthew Almond, Y Ffawydd, a oedd yn dathlu ei ben blwydd arbennig yn 18 oed ar Chwefror 8fed. Pen blwydd hapus iawn i ti Matthew!

**Cawl a Chân yn y Bryn**

Nos Iau, Mawrth 6ed, cynhelir noson o adloniant Cymreig i ddathlu Gŵyl Dewi yn y Bryn yng nghwmni Cantorion Corran, Talacharn, dan eu harweinydd Heather Jenkins.

Dewch â bowlen a llwy os gwelwch yn dda, oherwydd bydd cawl yn cael ei weini, ynghyd â phice ar y maen a phaned o de neu goffi i ddilyn. Noson i ddechrau am 7pm. Oedolion £7, plant ysgol gynradd am ddim. Croeso i bawb!

**Cymdeithas Gymraeg Llangynin**



Y siaradwr gwadd yng nghyfarfod mis Ionawr o Gymdeithas Gymraeg Llangynin oedd y newyddiadurwr a'r sylwebydd gwleidyddol Tweli Griffiths.

Eglurodd Tweli ei fod wedi ymddiddori mewn consuriaeth ers iddo ymweld â siop Gamages yn Llundain pan oedd yn blentyn. Yno roedd 'na stondin yn gwerthu triciau consurio,ac roedd Tweli wedi gwirioni ar wneud triciau.

Felly yn hytrach na thrafod ei yrfa ym myd darlledu penderfynodd Tweli ddiddanu'r gynulleid fa trwy berfformio nifer o driciau rhyfeddol, a chafodd aelodau'r Gymdeithas Gymraeg noson hyfryd yn ei gwmni.

Diolchwyd iddo gan y Cadeirydd, Elfed Lewis, cyn i bob un fwynhau paned a sgwrs i gloi'r noson.

# SAN CLER

**Mr a Mrs Claus**



Llongyfarchiadau unwaith yn rhagor i Santa a Mrs Claus, wrth iddynt godi'r swm anhygoel o £3,185.00 tuag at LATCH. Bu'r ddau'n ymweld â chartrefi gofal lleol a siopau'r ardal, yn ogystal â diddanu a diddori plant yn eu groto yn San Clêr.

Hoffai'r pâr ddiolch yn arbennig i Dafarn y Corvus a siopau Spar a Pethau Olyv, am eu cyfraniadau hael iawn tuag at LATCH.

Elusen yng Nghymru yw LATCH ac wedi'i lleoli'n yr Ysbyty Athrofaol yng Nghaerdydd. Mae'n helpu ac yn cynnig cymorth i blant sy'n dioddef o gancr, yn ogystal â chefnogi'r teuluoedd yn ystod cyfnod y triniaethau.



Ers cychwyn codi arian adeg y Nadolig, mae Santa a Mrs. Claus wedi codi dros £20,000. Hoffai'r ddau ddiolch o waelod calon i bawb a gyfrannodd at yr elusen ragorol hon eleni eto

**Penblwydd Hapus** i Carys Owens, Fferm y Manor, a oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 50 oed ar Chwefror 13eg.

RHYDWYN DAVIES
TRYDANWR
Parcylleine, Blaenffos, Boncath. SA37 0HZ
NICEIC APPROVED CONTRACTOR
Ffôn: 01239 831212
Symudol: 07836 751238

AM Y DEWIS GORAU
GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin
*Anrhegion Cyfoes Cymraeg*
*Llyfrau Cymraeg*
*CD's*
*Cardiau Cyfarch*
*a llawer mwy*
Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa Clunderwen
GWASANAETH DOSBARTHU AR GAEL

Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni
Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe, Clunderwen. SA66 7NP

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Doris Howells, Talar Wen, Heol yr Orsaf. Bydd nifer yn ei chofio â gofal yr arian cinio yn Ysgol y Bôrd ac yn Ysgol Griffith Jones. Gwraig hawddgar, garedig. Cydymdeimlwn â'i phlant Anne-Louise, Jay ac Elizabeth a'r teulu oll ar eu colled.

Hefyd, trist oedd clywed am farwolaeth Dion Williams, mab y diweddar Ocky a Val Williams, Lon Hafren. Cydymdeimlwn â'i chwiorydd Tara a Kim a'r teulu oll ar eu colled.

# PWLL TRAP

Ganed Ioan Macsen ar Ragfyr 30ain. Mab i Tom ac Alys Bryant, ŵyr bach i Jonathan a Sandra Williams. Llongyfarchiadau!

Dymunwn Benblwydd Hapus i Huw Lewis, Pennant, a fydd yn dathlu ei benblwydd yn 70 oed ar Fawrth 8fed.

Cydymdeimlwn â theulu y diweddar Mr. Melbourne Jones, Brynhyfryd ar eu colled.

Cydymdeimlwn, hefyd, â Liz Carroll, Dolwerdd, a'r teulu ar farwolaeth ei mam, Doris Howells o San Cler.

Cydymdeimlwn â Geraint a Geraldine Phillips, Mydd-fai , a'r teulu ar farwolaeth ewythr i Geraint, sef Winston Davies o Blaenwaun.

Dymunwn yn dda i Gareth Davies, Y Wenllys, sydd wedi treulio rhai wythnosau yn Ysbyty Glangwili.

**Bethlehem Newydd**

Cynhaliwyd oedfa Gymun dechrau'r flwyddyn ar Ionawr 5ed yng ngofal y Gweinidog a Marian pan edrychwyd yn fanwl ar y ffeithiau am eni'r Iesu yn Efengyl Mathew.

Ar Ionawr 12fed cafwyd oedfa yng nghwmni'r Parch Euros Jones Evans pan drafodwyd mesur twf ysbrydol y Cristion yn ôl 2 Pedr.

Maria Evans oedd yn gwasanaethu yn oedfa Ionawr 26ain a chafwyd Oedfa Gymun dan ofal yr aelodau ar Chwefror 2ail. Diolch i bawb a fu'n cymryd rhan.

Dymunwn yn dda i Hywel Davies, Talacharn sydd wedi derbyn llaw-driniaeth ar ei figwrn.

Penblwydd Hapus i Eleri Roberts, Cydweli oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 70 oed ar Chwefror 15fed.

**Tŷ Croeso**



Apêl Cadw'n Gynnes Tŷ Croeso. Casglwyd cotiau a fydd yn mynd i Eglwys Crist, Caerfyrddin. Bydd modd i bobl sydd yn defnyddio'r Banc Bwyd gael cot os ydynt mewn angen. Diolch i bawb am eu haelioni.



Bydd y cwiltiau clytwaith a'r fests babis yn mynd i Plant Dewi a'r blancedi sydd wedi'u gwau a'u crosio yn mynd i Eglwys Crist. Rhoddion gwerthfawr gan aelodau o'r gymuned. Diolch am eu caredigrwydd.

Bethlehem Newydd Pwll Trap

**Cawl a Chân**

yng nghwmni **Bois y Felin**

Nos Fercher, Mawrth 5ed am 7.00yh

Mynediad yn **£8**

Yr elw at elusen dementia

Dewch â basn a llwy!

BELLISSSIMO
Blodau gan
Kathy Bizzotto
(Llandysilio)
ar gyfer pob achlysur
rhodd neu flodau
angladd.
Ffôn: 07944 248973
e-bost:
kathbizzoto@gmail.com

SAER COED
IFAN LEWIS
CARPENTRY
07456 626 735

STEVE DANIELL
Monraker
PLYMIWR
Gosod ystafelloedd ymolchi
"Handyman"
Tir y Bont
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf
Ffôn: 07837 089648

# BANCYFELIN

Bu aelodau Capeli Cana a Bancyfelin yn brysur yn ystod Ionawr a Chwefror yn casglu hen sbectolau i Apêl "Vision Aid overseas" mewn cydweithrediad â Celtic Opticians yng Nghaerfyrddin. Llwyddwyd i gasglu rhai cannoedd o hen sbectolau a braf oedd cydweithio ac Ysgol Bancyfelin ar yr ymgyrch hon.

Daeth criw ynghyd ar gyfer y Baned a Sgwrs misol yn y Fox & Hounds (gweler y llun isod). Cynhaliwyd oedfaon yn gyson drwy'r mis dan arweiniaid ein Gweindog, Y Parchg Beti-Wyn James a chawsom gwmni Alun Lenny yn ein gofalaeth un Sul. Mae Ysgol Sul Cana yn cwrdd yn wythnosol a brawf yw gweld y rhifoedd wedi cynyddu yn ddiweddar. Estynnwyd croeso i bawb i festri Heol Awst ar gyfer prynhawn ardderchog yn gwrando ar Richard Eynon Hughes yn adrodd ychydig o hanes o'i ewythr y diweddar Barchg W Rhys Nicholas ac yng nghwmni lleisiau swynol Pedwarawd Bryn Awel.

Cynhaliwyd cinio Gŵyl Dewi yn festri Cana a mwynhawyd cawl ardderchog a baratowyd gan Sheila Phillips, gyda chacenau hyfryd i ddilyn a ddarparwyd gan wragedd yr eglwys. Edrychwn ymlaen at barhau i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant ond mwy am hynny yn y rhifyn nesaf! Yn y cyfamser, cofiwch bod croeso i bawb i ymuno mewn achlysur arbennig yn festri Capel Heol Awst Caerfyrddin bnawn Llun, 24ain Mawrth am 2 o'r gloch, ar gyfer lansiad y gyfrol 'Hoff Adnodau'r Cymry' dan olygyddiaeth ein gweinidog.



**Gibeon**

Cynhaliwyd oedfa gyda Chwrdd Eglwys yn dilyn ar Ionawr 19eg. Roedd yr oedfa dan ofal Beti-Wyn. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Hilary a Iona a bu Beti-Wyn yn y fyfyrdod rhannu ei phrofiadau gyda Deiseb Heddwch Merched Cymru a digwyddiadau eraill yn ystod y flwyddyn. Ann oedd yn cyfeilio.

Cydymdeimlwn â Lloyd ac Eryth Davies Lyn a Bethan Davies a'r teulu ar farwolaeth ei nith, Nia, merch John a'r diweddar Dorothy Evans, Llysonnen.

Cydymdeimlwn, hefyd, â Elan, Llion a Gwennan o'r Ysgol Sul ynghyd a'u rhieni, Eirian a Lis, ar farwolaeth tad Eirian, sef Lyn Jones o Gydweli.

Cynhelir oedfa Dydd Gweddi'r Byd yng Ngibeon ar nos Wener, Mawrth 7fed am 7 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

# LLANDYSILIO

**Penblwyddi**

Mae llawer o ddathliadau wedi bod yn nheulu Hammersley's (Lamos) yn ystod mis Ionawr.
Roedd Annie Hammersley yn 70 oed ar yr 2il.
....hefyd roedd Daz Rees yn 50 oed ar 16eg.
...hefyd, Phil Hammersley 'Lamo' yn 70 oed ar 22ain.
....a Popp Hammersley yn 11oed ar 30eg.
Penblwydd Hapus iawn i chi gyd.

**Penblwyddi eraill**

Penblwydd hapus hefyd i Judith Luke a oedd yn 60 oed ar Ionawr 31ain.
....hefyd i Barbara a oedd yn 80 oed ar Chwefror 25ain.

**Llongyfarchiadau**



Da iawn i'r 3ydd genhedlaeth o raswyr teulu Beiciau Modur Lamo (1 ar goll yn y llun). Maent wedi derbyn eu tlysau pencampwriaeth 2024 ar ôl tymor gwych yn rasio gyda ffrindiau arbennig yn 'Grasstrack' Bancyfelin. Diolch i bawb a fu'n rhan o redeg y rasus, maent yn gwerthfawrogi yn fawr. Os oes rhywun yn eich cartref â diddordeb, dewch i'r cyfarfod ar ddechrau'r tymor nesaf.



**Neuadd Llandysilio**

Hoffai bwyllgor y neuadd atgoffa pawb ar ddechrau blwyddyn newydd fod Maes parcio y neuadd dim ond i'w ddefnyddio gan bobol sy'n defnyddio'r ysgol; y Neuadd a'r maes chwarae sydd yn y cae. Diolch am eich cydweithrediad.

Nid yw'n rhy hwyr eto i ymuno a Chlwb 100 y Neuadd. Dim ond £10 y flwyddyn. Os hoffech ymuno cysylltwch â Haulwen Pridmore ar 07788816980

**Diolch**

Dymuna Beryl a theulu'r diweddar Elwyn Harries (Pask), 4 Maesybryn, Llandysilio, ddiolch o waelod calon i berthnasau, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn ystod cyfnod anodd a thrist.

Cynhaliwyd yr angladd ar yr 28ain o Rhagfyr yng Nghapel Pisga, Llandysilio, pan ddaeth cynulleidfa fawr ynghyd i dalu'r gymwynas olaf iddo. Roedd y gwasanaeth o dan ofal ei gyfaill, y Parchedig Nigel Griffin.

Dymuna'r teulu hefyd ddiolch i Dennis Jones a'i deulu, am ei gofal a'u cymorth tra'n trefnu'r angladd gydag urddas. Casglwyd swm o £600 tuag at Ward 8, Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg.

# CLUNDERWEN

**Penblwyddi**

Dymunwn Penblwydd hapus iawn i Chriselda Davies, Gower Villa, Clunderwen a oedd yn 90 oed ar Chwefror 12fed.

...hefyd i Mary Sweeney yn 80 oed ar Chwefror 21ain.

**Llongyfarchiadau**



Llongyfarchiadau mawr i Stephen James, Cyn-Lywydd NFU ar dderbyn Gwobr Cyflawniad Oes Lantra. (Lantra Lifetime Achievement Award). Mae'r wobr i unigolyn sydd wedi gwneud cyfraniad eithriadol ac arwyddocaol i Amaeth Cymru. Llongyfarchiadau i holl enillwyr y gwobrau, noson wych yn arddangos y dalent o fewn ein diwydiant.

## Neuadd Gymunedol Clunderwen

Clwb Croeso Clunderwen

Dydd Iau 6ed a'r 20fed o Fawrth
11.00 - 1.30

Ymunwch a ni am ddiod cynnes, cawl, sgwrs a gweithgareddau mewn awyrgylch hamddenol

Y cyfan am ddim!

Croeso cynnes i bawb

## Cinio Gŵyl Dewi





Dydd Sadwrn, Mawrth 1af
am 12.30

Ariennir gan Gronfa Mannau Cynnes
Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Sue:
01437 563463

**Sefydliad y Merched Clunderwen a Llandysilio**



Ar nos Lun 3ydd o Chwefror, daeth Ffion Taverner o Glunderwen i siarad am liwiau naturiol. Noson diddorol iawn. Diolch iddi.




the LONDON HOUSE butchery

Stryd Sant Ioan
Hendygwyn ar Daf
SA34 0AN

**01994 240705 / 240055**

*Galwch mewn am y dewis gorau*

Dilynwch ni ar Facebook

GBA
GERALD BLAIN
CYMDEITHION CYF
Ymgynghorwyr Cynllunio a Phensaerniol

15 Stryd St Ioan, Hendygwyn, Sir Gaerfyrddin, SA34 0AN
01994 240 366
gerald@geraldblainassociates.co.uk
geraldblainassociates.com
@GBAssociates1

RUSSELL THOMAS


GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR



Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen
Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

# HENDYGWYN AR DAF

**Tabernacl**




Parch. Llew Picton Jones



Llew a Marie-Lynne

Fe wnaeth y cyn-weinidog, y Parchg Llewelyn Picton Jones, Pontarddulais, ddychwelyd i gynnal oedfa yn ystod mis Ionawr a hynny union 30 mlynedd ers iddo gael ei ordeinio a'i sefydlu yn weinidog yn y Tabernacl. Cafwyd oedfa hyfryd ganddo a chyfle i gymdeithasu gydag ef a Marrie-Lynne ar ôl yr oedfa.



Ithel Parri-Roberts

Cyn-bostfeistr Hendy-gwyn, Ithel Parri-Roberts oedd y gŵr gwadd yng Nghymdeithas y Tabernacl fis Chwefror.

Cafwyd anerchiad ddiddorol iawn ganddo yn olrhain ei blentyndod ym Mynachlogddu.

Mae Clwb Hwyl y plant yn parhau i gwrdd bob prynhawn Gwener am 3.30 ac mae nifer dda o blant yn dal i ddod yn wythnosol.

Mae Grŵp Trafod y Beibl yn cwrdd bob pythefnos fel arfer. Rydym newydd orffen astudio Llyfr Ruth a byddwn yn symud ymlaen nesaf i edrych ar Lyfr y Pregethwr.

Dyma drefn yr oedfaon am yr wythnosau nesaf a chroeso cynnes i bawb ymuno gyda ni unrhyw bryd :

Mawrth
2ail : 11.15 : Oedfa Gymun Gŵyl Ddewi
9fed : 10.00 : Oedfa
16eg : 10.30 : **Yng nghapel Bethel, Llanddewi**: Oedfa dan ofal Parchg. Llunos Gordon
23ain : 10.00 : Oedfa
30ain : 11.15 : Oedfa

## Hoelion Wyth – Cangen Hendygwyn

Ein siaradwraig wadd yng nghyfarfod mis Chwefror oedd Catrin Sian Kilcoyne (Rees gynt) ac estynnwyd groeso cynnes iddi gan y cadeirydd, Claude James. Ganwyd Sian yn Abertawe ac yr oedd yn un o'r disgyblion cyntaf i dderbyn addysg drwy gyfrwng y gymraeg yn Ysgol Gynradd Cwmbwrla, lle roedd ei thad William Rees yn athro. Cafodd ei thad swydd wedyn fel pennaeth yn Ysgol Gynradd Llwynmadog, Beulah a symudodd y teulu i fyw yn nghefn gwlad Sir Frycheiniog. Cafodd ei Addysg uwchradd yn Ysgol Llanfair Ym Muallt ac yna graddio yn Saesneg a Drama o Brifysgol Bangor.

Ar ôl ymddeol dechreuodd ysgrifennu blog gyda'i brawd Huw, oedd wedi priodi ac ymgartrefu yn Iwerddon ac yn teimlo nad oedd yn gwbod hanner digon am hanes Cymru. Roeddynt yn ysgrifennu rhyw hanesyn am Gymru bob dydd o'r flwyddyn a'i roi ar y cyfryngau cymdeithasol. Datbygodd y blog i fod yn llwyddiannus dros ben gyda dros 300,00 o ddilynwyr. Yn 2021, daeth cynnig gan Wasg Prifysgol Cymru i gyhoeddi llyfr yn saesneg, yn seiliedig ar gynnwys y blog a chyhoeddwyd 'Wales on this Day' yn Nadolig 2022. Erbyn hyn, hwn yw'r llyfr mwyaf poblogaidd i Lyfrau Calon (adran o Wasg Prifysgol Cymru) gyhoeddi ac erbyn hyn yn y chweched argraffiad. Mae ail gyfrol 'Welsh Women on this day' yn cael ei argraffu ar y 13eg o ddiwedd Chwefror eleni.

Yn dilyn y cyflwyniad, aeth o amgylch yr aelodau gan ofyn am ddyddiad geni neu ddyddiad pwysig yn eu hanes ac yn y llyfr roedd hanesyn diddorol am rywbeth ddigwyddodd yng Nghymru ar y dyddiad arbennig hynny. Noson hynod o ddiddorol a diolchwyd i Sian gan Trefor Evans.

DH DAVID HARRIES & Co DH
CYFANWERTHWYR FFACTORAU CERBYD
Westgate, West Street, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 241100
Batteries, Belts, Bearings, Compressors, Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

Gerald Llewellyn a'i Fab
Peirianwyr Gwresogi a Phlymwyr
Am y dewis gorau o ffyrnau i'r gegin Nwy neu Olew
CELT • AGA • RAYBURN • SORN

Dryslwyn, Clunderwen
Ffôn: 01437 563589

JTL PLYMIWR
Arbenigwr ystafelloedd ymolchi / gwlyb
• Gwasanaeth plymio llawn
• Gosodwyr systemau dŵr twym heb fent
• Gwasanaeth teilio llawn
• Dyfynbris am ddim
• 25 mlynedd o brofiad
07788 422645 / 01437 563206
jodyleyfield@hotmail.co.uk

**Penblwydd hapus** i Denzil Davies, Maes-yr-onnen, Hendygwyn-ar-Dâf yn 80 mlwydd oed ar Chwefror y 18fed. Llawer o gariad oddi wrth Gwyneth a'r teulu i gyd.

### Cymdeithas Genedlaethol Hywel dda

Ionawr
1af - Beryl Gibbon - £60
2ail - Dion Jones - £50
3ydd - John Griffiths Dinbych y Pysgod - £40
4ydd - Pat Price - £30

Chwefror
1af. - Tudur Lewis - £60
2ail - Elfed a Nia Lewis - £50
3ydd - Andy a Karen Webster - £40
4ydd - Geraint Davies, Stag, Llanboidy

## CWMFELIN MYNACH

**Ramoth**
Cynhaliwyd oedfa gymun ar Sul, Chwefror 2il dan ofal Mr Hefin Wyn a chafwyd gwasanaeth dan ofal y Parch. Huw George ar Sul 9fed. Diolchi'r ddau am eu gwasanaeth.

**Trefn oedfaon mis Mawrth**
2il: Oedfa gymun dan ofal Mrs Orinda Roberts - 10.30
9fed: Oedfa dan ofal y Parch. Huw George - 10.30

**Diolch**
Dymuna Sioned Snelson ddiolch i bawb wnaeth ei noddi pan fu'n rhedeg hanner marathon Caerdydd a marathon Eryri. Derbyniwyd £1350 tuag at Ymchwil Cancr Cymru.

## LOGIN

**Calfaria**
Oedfaon
Diolch o galon i Mrs Shan Jones, Mrs Orinda Roberts a Mrs Catrin Isaac Thomas am eu gwasanaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf :-

Mawrth
9fed: Wyn Morris - Cymun am 2
23ain: Wyn Thomas - Cwrdd am 2

Ebrill
6ed: Ken Thomas - Cymun am 10.00
20fed: Judith Morris - Cymun Pasg am 10.30

**Oedfa Sul y Beibl**
Cynhaliwyd oedfa Sul y Beibl yng Nghapel Nebo, Efail-wen ar fore Sul, Ionawr 19eg. Cyflwynodd Eurfyl ddarlleniad ar ran Calfaria.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn gyda Mari Brame ar farwolaeth ei mam yng nghyfraith sef Doreen Brame o Hwlffordd yn ddiweddar.

**Yr Adroddiad Blynyddol**
Dosbarthwyd yr adroddiad blynyddol yn ystod oedfa gymun mis Chwefror. Diolch i Faith ac Eurfyl am sicrhau fod yr adroddiad yn cael ei argraffu'n brydlon fel arfer.

### Canolfan Ffynnonwen

Edrychwn ymlaen at y ginio sydd wedi ei threfnu ar nos Wener, 28ain o Chwefror yng Nghaffi Beca. Byddwn yn trefnu'r cyfarfod nesaf ac yn trafod syniadau am weithgareddau y tymor hwn.

Cydymdeimlwn â Julian Williams a'r teulu ar farwolaeth ei dad Vivian Williams. Cymeriad a roddodd wasanaeth oes i'r ardal. Cymeriad unigryw.

## CWM MILES

**Capel**
Trist yw cofnodi marwolaeth Elwyn Harries, 4 Maes y Bryn, Llandysilio, tad dau o'n haelodau sef Hefin a Rhys Harries, Spring Cottage, Login. Dioddefodd afiechyd am gyfnod hir a chydymdeimlwn â'r teulu cyfan.

Dymunwn yn dda i Mair John, Penyberth, Llandysilio sydd wedi cael llawdriniaeth ac hefyd i Geraint James, Coedllys, sydd wedi bod yn yr ysbyty.

## TRELECH

Llongyfarchiadau i Aled a Helen, Treto Uchaf, ar ddod yn ddatcu a mamgu unwaith yn rhagor. Ganwyd ŵyr iddynt, Bryn, ar ddiwedd mis Ionawr. Mab i Carys a Rhys a brawd bach i Mari a Fflur. Pob dymuniad da i'r teulu.

Gwellhad llwyr a buan i John Cilifan sydd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar.








Cydymdeimlad dwysaf â Jean, Ambrose a Gwawr Lewis, Neuadd ar farwolaeth brawd Jean, William Fronglyd a fu farw ganol mis Ionawr.

....hefyd â Mrs Beryl Thomas sydd wedi colli nai - Hefin Thomas o Henfwlch ger Caerfyrddin neu Hefin JCB fel yr adnabyddir. Coffa da amdano.

# PENYBONT

**CFFI Penybont**



Cafwyd diwrnod rhagorol yn y gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg fis Ionawr,

Adran Iau
1af - Tîm Penybont
1af - Unigolyn gorau: Celyn Richards

Llongyfarchiadau i Celyn am gael ei dewis i gynrychioli Sir Gâr a Gwenan fel eilydd.

....hefyd i Gwenan Morris am gael ei dewis i gynrychioli Sir Gâr yn yr adran ganol.

Adran hŷn
1af - Tîm Penybont
1af - Unigolyn gorau: Daniel O'Callaghan

Llongyfarchiadau i Teleri, Hannah a Daniel am gael eu dewis i gynrychioli'r Sir, a Fiona fel eilydd.

# LLANBOIDY

**Cydymdeimlwn**

Cydymdeimlwn â William John Davies, Stag a'r teulu wedi iddo golli ei frawd Gwynfor yn ddiweddar.

**Chwaeroliaeth**

Cyfarfu'r aelodau yn y festri ar Ionawr 15fed o dan lywyddiaeth Wenfys Rees. Croesawodd y gwestai, sef Dr Lowri Heseltine a chafwyd hanes ei gwaith eang fel Milfeddyg yn Aberteifi lle mae'n arbenigo mewn anifeiliaid bach. Diolchodd Wenfys iddi ac roedd y te a'r bisgedi yng ngofal Ivy Phillips a Mary Phillips.



Dr Lowri Heseltine yng nghwmni'r aelodau

**Sefydliad y Merched**

Ar Ionawr 9fed aeth yr aelodau i'r Crymych Arms ar gyfer eu Cinio Nadolig a bu Denise Harris yn diolch i'r staff am ddarparu cinio blasus. Mae Sioe y Sir eisioes wedi ei threfnu ac mae llawer o weiddgareddau eang i ddod yn ystod y flwyddyn.

**Trinity**

Ar y 9fed o Chwefror cafwyd Sul yr Aelodau o dan arweiniad y gweinidog Guto Llywelyn. Rhoddodd hanes y cerddor lleol o Hen-dy-Gwyn sef yr Athro William Mathias a chafwyd y cyfle i wrando ar ddarn a gyfansoddwyd ganddo.

***Penblwydd hapus yn 60 oed***



Cyfarchion penblwydd i Jayne Evans a fu'n dathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar. Mae Jayne yn wyneb cyfarwydd i bawb sy'n galw yn y siop yn Llanboidy ac o hyd yn gyfeillgar a chroesawgar.

AWEN TEIFI
Dewis da o lyfrau Cymraeg i blant ac oedolion, hefyd cardiau a theganau
Ar agor 9yb - 5yh
Llun i Sadwrn
Ffôn: 01239 621370
23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ

CENNYDD JAMES
- Adeiladwr
- Adeiladau newydd
- Adnewyddiadau
- Llwybrau a phatios
- Plastero a sgimio
- Adnewyddu simneiau
Gwasanaeth yn y Gymraeg!
Ffôn: 01239 831100
Ffôn Symudol: 07968 163181

Ifan Phillips 07788 424559
CANOLFAN REHAB CENTRE
therapi chwaraeon clinigol
ar gyfer poenau ac anafiadau cyffredinol sy'n gysylltiedig â chwaraeon a gwaith

# EFAILWEN

Llongyfarchiadau enfawr i Cerys Davies, gynt o Roseberry, Efailwen ar ennill Gradd Meistr mewn addysg o Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Cawsom wledd o ganu a gwrando ar offerynau cerdd yn cael eu chwarae gan ddisgyblion Ysgol Beca fore dydd Iau, 6ed Chwefror yng Nghaffi Beca i ddathlu Dydd Miwsig Cymru. Llongyfarchiadau iddynt i gyd.



Ysgol Beca yn dathlu Dydd Miwsig Cymru

Dymunwn wellhad buan i Isaac Davies, Brynhyfryd. Mae Isaac wedi cyrraedd adre ar ôl llawdriniaeth mewn dwy ysbyty'n ddiweddar, hyfryd yw ei gael adre'n òl i wella.

**Hoelion Wyth Cangen Beca -** Cyfarfod Ionawr



Elen Davies yng nghwmni Eifion Evans, Ken Thomas ac Eurfyl Lewis

Croesawyd yr aelodau gan ein Cadeirydd, Eifion Evans a chyflwynodd ein siaradwraig wadd sef Elen Davies o Rhydargaeau. Cafodd Elen ei magu ym Mhencader a derbyniodd ei haddysg yn Ysgol Gynradd Caer Felin, cyn mynd ymlaen i Ysgol Dyffryn Teifi. O fan honno, aeth i astudio Cymraeg a Newyddiaduraeth ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'n gweithio fel un o ohebwyr y Gorllewin i BBC Cymru erbyn hyn, yn bennaf ar draws blatfformau newyddion Cymraeg BBC Cymru, felly Radio Cymru, rhaglen Newyddion S4C a gwefan Cymru Fyw.
Yn ystod ei chyfnod yn y Brifysgol, enillodd hi wobr 'Myfyriwr Newyddiadurwr y Flwyddyn' yng Ngwobrau Cyfryngau Cymru, profiad wnaeth heb os agor y drws i fyd gwaith a'r byd darlledu.

Ei swydd gyntaf oedd fel Newyddiadurwr dan Hyfforddiant yn ITV Cymru, yn creu cynnwys newyddion i bobl ifanc ar blatfform digidol Hansh. Esboniodd bod hyn yn dipyn o her gan fod pobl yn meddwl am y newyddion fel rhywbeth trwm, diflas a difrifol. Y gamp felly oedd trio gwneud straeon y dydd yn apelgar i bobl ifanc. Swydd 'dan hyfforddiant' oedd hwn, ac roedd hi'n dysgu ar y job fel petai! Mae edrych nôl ar y cyfnod hyn yn gwneud iddi sylweddoli gymaint wnaeth hi ddysgu.

Cafodd swydd barhaol fel Newyddiadurwr yn ITV Cymru a hynny ar raglen y Byd ar Bedwar - rhaglen materion cyfoes. Ymysg rhai o'r pethe bu'n gwneud ar Y Byd ar Bedwar oedd gweithio fel newyddiadurwr cudd, neu 'undercover reporter' mewn cartref gofal yn y Gogledd, wedi pryderon am y lle. Fe wnaeth y rhaglen arwain at drafodaeth yn y Senedd.

Ar ôl cyfnod ar Y Byd ar Bedwar, cafodd ei swydd gohebu cyntaf ar raglen wleidyddol Y Byd yn ei Le, S4C gyda Guto Harri. Ei swydd oedd casglu barn y bobl bob wythnos a bydde hi'n mynd â chadair y Byd yn ei Le i ryw ddigwyddiad, fel Hoelion Wyth, Merched y Wawr neu farchnad i gasglu barn y bobl ar bwnc yr wythnos hwnnw.

Ar ôl Covid, cafodd Elen swydd fel un o Ohebwyr y Gorllewin gyda'r BBC gan weitho mas o'r swyddfa yng Nghaerfyrddin. Mae wedi bod yno ers bron i dair mlynedd erbyn hyn, gan gydweitho gyda Aled Scourfield a Sara Dafydd. Cawsom esboniad manwl gan Elen o beth yw ei diwrnod gwaith arferol a sut mae'n mynd ati i gasglu cyfweliadau, rhoi deunydd at ei gilydd, ysgrifennu erthyglau, gwneud y darllediadau radio a pecynnau teledu.

LLAWN CARIAD
**Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon**
Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
Ebost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawn Cariad
www.llawncariad.co.uk




Bwyd Byd Byd
- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus
- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
- Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
- Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
- Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn

1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com

Dywedodd bod y swydd yn lot fawr o sbort ond eto, gallu bod yn un difrifol iawn, felly mae'n bwysig cael y balans, a dysgu sut i switsho bant.

Cafwyd cyfle i holi nifer o gwestiynau i Elen ar ddiwedd ei chyflwyniad gwych a cawsom noson hwylus a difyr iawn yn ei chwmni. Diolchwyd iddi gan Eifion, diolch hefyd i Robert am ddefnydd y lleoliad ac am ddarparu'r cawl arferol ar ein cyfer.

**Capel Nebo -** Gwasanaeth Sul y Beibl

Cynhaliwyd Gwasanaeth Sul y Beibl eleni ar Ddydd Sul 19 Ionawr 2025 yng Nghapel Nebo, Efailwen, gyda naw capel yn dod ynghyd: Bethel Mynachlogddu, Bethesda, Blaenconin, Calfaria Login, Cefnypant, Horeb, Nebo, Pisga a Rhydwilym. Thema'r oedfa oedd 'Dathlu'r Beibl', gan gynnig cyfle i fyfyrio ar gynnwys y llyfr pwysig hwn a'i arwyddocâd yn ein bywydau beunyddiol.

Yn ystod y gwasanaeth, rhannwyd ffeithiau diddorol am y Beibl, gan gynnwys y ffaith nad yw'r gair 'Beibl' yn ymddangos ynddo o gwbl, a bod Llyfr Esther yn unigryw am nad yw'n cynnwys enw Duw. Ystyriwyd hefyd nifer o gwestiynau allweddol: Pam y dylem ddarllen y Beibl? Sut y dylid ei ddefnyddio? Beth allwn ei ddysgu wrth ei ddarllen? A beth yw ei neges i'r byd heddiw?

Bu'r Parch Eirian Wyn Lewis yn traddodi anerchiad ysbrydoledig, gan atgyfnerthu'r thema 'Dathlu'r Beibl' a thanlinellu'r her i bob un ohonom—sef y dylid agor y llyfr yn gyntaf cyn y gallwn elwa o'i neges. Daeth y gwasanaeth i ben gyda chasgliad at Gymdeithas y Beibl.

## CRYMYCH

**Diolch**

Dymuna Gwynfor, Hilary a'u teuluoedd ddiolch i bawb am y cydymdeimlad a'r cymorth a dderbyniwyd yn ystod ei profedigaeth o golli Mam, Mamgu, Hen-famgu a Mam ynghyfraith hoffus, sef Merle Davies, Maes yr Yrfa Crymych.

Gwerthfawrogir yn fawr yr holl alwadau ffôn, cardiau, rhoddion a blodau. Diolch yn arbennig i'r Parch Eirian Wyn Lewis ac hefyd i'r Parch Catrin Thomas. Diolch hefyd i Swyddogion Capel Nebo am gael cynnal y Gwasanaeth yn y Capel, ac i Mr Dennis Jones am gario allan y trefniadau mor urddasol.

Derbyniwyd £600 tuag at Meddygfa Taf Hendygwyn. Diolch i bawb.

## LLANGLYDWEN

**Diolch**

Dymuna teulu y diweddar Viv Williams, Llysifor, ddiolch yn ddiffuant i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn ystod eu profedigaeth. Gwerthfawrogir hyn oll yn fawr iawn.

## RHYDYCEISIAID

Cynhaliwyd oedfa gymun ar Sul, Chwefror 2il. Pleser oedd cael cwmni Eifiona Lewis yn yr oedfa.

Dymuniadau gorau i Rhodri, Vicky, Diana ac Edward Lloyd yn eu cartref newydd ar fferm yn Hayscatle.

Dymunwn wellhad buan i Doreen Adams ar ôl iddi gael anffawd yn y tŷ. (Gol.)

### CYMDEITHAS WALDO WILLIAMS

Os oes diddordeb gennych mewn diogelu'r cof am waith a bywyd Waldo Williams mae swyddi

**YSGRIFENNYDD a THRYSORYDD**

i'w llenwi

Cysylltwch ag Anna Williams ar 07850 713902


neu e-bost: anna.williams2047@gmail.com


## PENBLWYDD HAPUS



Penblwydd Hapus i Daniel James o Benybont ar Ogwr a fydd yn 7 oed ar Chwefror 27ain a'i chwaer fach, Harriet, a fydd yn 4 oed ar Fawrth 19eg. Daw'r cyfarchion wrth Dad, Mam a'u chwaer fawr, Alys, Dadcu a Nain Pwll Trap, Anti Iona ac Wncwl Ceri.





Y CARDI BACH, BACH
Papur Bro Dyffryn Taf
CARIAD O BETH CARDI BACH

# YSGOL LLYS HYWEL

**Rygbi**



Da iawn i'r uchod am gystadlu'n frwd ar ran yr ysgol yng Nghystadleuaeth Rygbi Agored Yr Urdd, Rhanbarth Gorllewin Myrddin.

**Pệl Rwyd**





Da iawn i ferched Blwyddyn 5 a 6 am gystadlu yng nghystadleuaeth Pệl Rwyd yr Urdd!
Diolch hefyd i'r CRA am eu rhodd i helpu ni brynu cit newydd i'r plant.

**Cwis Dim Clem**
Llongyfarchiadau mawr i Polly, Noah, Ffion a Gwion am gynrychioli'r Ysgol yng nghystadleuaeth Cwis Dim Clem y flwyddyn yma! Diolch i Ysgol Bro Brynach am gynnal y cwis yn ein hardal ni.

**Bags2School**
Diolch i bawb a wnaeth gefnogi'r ysgol gan ddod mewn ậ hen ddillad i'r achos 'Bag2School' a helpu ni godi dros £100 i'r ysgol.

**Diwrnod Diogelwch ar y We**
Mi oedd bob dosbarth wedi cymryd rhan mewn sawl gweithgaredd ar sail pwysigrwydd diogelwch ar y we.

**Nofio**
Da iawn i Amelia Lennon am gymryd rhan mewn cystadleuaeth nofio Gorllewin Cymru. Braf i weld Amelia yn cymryd pob cyfle yn ei champ.

**Dydd Miwsig Cymru**
Mwynhaodd y disgyblion wrando ar ystod o gerddoriaeth Gymraeg a hyd yn oed creu rhai eu hunain gan ddefnyddio Chrome Music Lab Piano
Hoffwn ddymuno pob lwc i Holly Singer, sy'n mynd ar daith gyda'i band, Adwaith. Mae Holly wedi bod yn gweitho gyda ni yn yr ysgol yn ddiweddar.

**Wythnos Iechyd Meddwl plant**
Mae disgyblion wedi bod yn dysgu pwysigrwydd iechyd meddwl ar ddechrau'r mis wrth drafod teimladau, emosiynau a gwneud gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth o hyn.

**Blwyddyn newydd Tsieinea**



Am wythnos mae'r plant dysgu sylfaen wedi cael wrth ddysgu am y flwyddyn newydd Tsieineaidd. Maent wedi cymryd rhan mewn llawer o brofiadau gan gynnwys bwydydd Tsieneaidd.

# YSGOL BRO BRYNACH

**Pêl-rwyd Merched Bl.5 a 6**



Ar ddydd Iau 16eg o Ionawr fe wnaeth merched o flynyddoedd 4, 5 a 6 cystadlu yn nhwrnamaint Pêl-rwyd Merched yr Urdd. Ymdrechodd pawb yn arbennig o dda gan ddangos sgiliau pêl-rwyd gwych ar y cae.

**Diwrnod Santes Dwynwen**



Bu'r ysgol gyfan yn mwynhau mas draw wrth ddathlu Dydd Santes Dwynwen. Gwisgodd pawb goch neu binc ar gyfer diwrnod y cariadon. Trefnodd y Siarter Iaith werthu cacennau gydag eisin pinc a choch wedi addurno gyda sprincls a chynllunio cystadleuaeth creu carden ar y thema cariad. Cafodd enillydd o bob dosbarth fag o ddanteithion. Bu'r cyngor Ysgolion Iach yn brysur hefyd yn creu ac yn gwerthu smwddis ffrwythau i bawb ei fwynhau.

**Rygbi Agored Blwyddyn 5 a 6**



Ar ddiwedd mis Ionawr fe chwaraeodd tîm o ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 cystadlu yn nhwrnamaint Rygbi agored yr Urdd. Ymdrechodd pawb yn arbennig o dda a gwelwyd taclo a cheisiau da yn ystod y diwrnod.

**Cwis Dim Clem**




Croesawyd Gwyneth a Mari o Fenter Iaith Sir Gâr i'r ysgol ar y 5ed o Chwefror i gynnal Cwis Dim Clem. Daeth disgyblion draw o Ysgol Beca ac Ysgol Llys Hywel ar gyfer y gystadleuaeth.

**Dydd Miwsig Cymru**

Braf oedd dathlu Dydd Miwsig Cymru ar y seithfed o Chwefror. Mwynheuodd y disgyblion ddysgu am gerddoriaeth Cymraeg, gwrando a dawnsio i amrywiaeth o ganeuon Cymraeg gan gantorion Cymru.

**Diwrnod Diogelwch arlein**

Cyflwynodd y Dewiniaid Digidol wasanaeth i'r ysgol gyfan am bwysigrwydd bod yn ddiogel ar lein. Y brif neges oedd sut i fod yn SMART ar lein.

**Pontio Ysgol Bro Preseli**

Trefnwyd diwrnod pontio i 5 o ddisgyblion blwyddyn 6 a fydd yn mynd i Ysgol Bro Preseli ym mis Medi. Cafodd y disgyblion gyfle i ddod i adnabod yr ysgol a'r staff yn ystod y dydd a mwynhau amryw o weithgareddau a drefnwyd ar eu cyfer.

**Ymwelwyr**

Braf oedd gallu croesawu Guto a Shirley atom y mis yma i gynnal gwasanaeth i'r disgyblion. Dysgwyd am ddathliad Cynhaeaf y Hindiwiaid o'r enw Pongol a mwynhau gwrando ar stori Arch Noa ac Iesu yn y deml.

**Dyddiad pwysig ir ddyddiadur**

Ar ddydd Mawrth y 4ydd o Fawrth mae'r ysgol yn cynnal dathliad Gŵyl Ddewi yn Neuadd y Farchnad, Llanboidy am 1:30 y.p. Bydd yna bris mynediad o £3 a fydd yn cynnwys pice ar y maen, bara brith gyda the neu choffi. Dewch yn llu i fwynhau amryw o eitemau Cymreig gan ddisgyblion Bro Brynach. Croeso cynnes i bawb!

# YSGOL HAFODWENOG

**Sioe Nadolig**

Cafwyd Sioe Nadolig – Pantdolig - llwyddiannus iawn eleni eto. Llongyfarchiadau i bawb am gymryd rhan. Diolch i'r rhieni, ffrindiau a'r gymuned am gefnogi.

**Sioe Cyw**

Aeth disgyblion Rhos Fach ar daith i ysgol Bro Teifi i weld Sioe Cyw a Sion Corn. Pawb wedi mwynhau mas draw.



**Priodas**



Cafodd disgyblion a chyn ddisgyblion Cae Glas yr anrhydedd o ganu ym mhriodas Miss Lleucu Phillips (athrawes Cae Glas) a Mr Jac Williams ddiwedd mis Rhagfyr. Pob dymuniad da i Mr a Mrs Wiliams ar gyfer y dyfodol.

**Stiwdio Mam**



Diolch i Mrs Lisa Phillips am ddod i wneud gweithdy celf gyda'r disgyblion yn ddiweddar.



Llongyfarchiadau i'r merched ym mlwyddyn 4, 5 a 6 am gystadlu yng nghystadleuaeth pêl-rwyd gyda'r Urdd.

# YSGOL GRIFFITH JONES

**Chwaraeon yr Urdd**

Gwnaeth tim pêl rwyd yr ysgol ymdrech arbennig yng nghystadleuaethau pêl rwyd yr Urdd. Mwynhaodd 3 tim rygbi o'r ysgol gymryd rhan yn nghystadleuaeth rygbi'r Urdd a gynhaliwyd yn Nantgaredig. Chwaraeodd y bechgyn yn dda iawn gan ennill llawer o gemau.




Tîm Pel-rwyd yr Urdd

**Nofio**

Cafodd pedwar dosbarth gyfnod prysur iawn yn ymarfer eu sgiliau nofio yn y Ganolfan Hamdden yng Nghaerfyrddin sef Dosbarthiadau Branwen, Hywel, Rhiannon ac Olwen.

**Dathlu Santes Dwynwen**

Trefnodd y Llysgenhadon Iaith gystadleuaeth dylunio cerdyn Santes Dwynwen ar gyfer pob dosbarth. Llongyfarchiadau i'r holl enillwyr. Cynhaliwyd disgo yn y prynhawn i ddathlu'r diwrnod.



Enillwyr cystadleuaeth dylunio cerdyn Santes Dwynwen

**Dydd Miwsig Cymru**

Dathlwyd Dydd Miwsig Cymru drwy werthuso gwahanol genres o gerddoriaeth Gymraeg ar draws yr ysgol. Bu'r Llysgenhadon Iaith yn creu rhestr chwarae o hoff ganeuon pob dosbarth i'w chwarae ar yr uchelseinydd yn ystod y dydd!

**Cwis Dim Clem**

Eleni eto bu disgyblion Blwyddyn 6 yn cymryd rhan yng nghwis Menter Iaith Sir Gâr i ysgolion sef Cwis Dim Clem. Da iawn i'r tim, sef Isabella, Cora, James a Jessica, am ddod yn gyntaf yn erbyn 3 ysgol leol arall yn y rownd gyntaf

**Ymwelwyr**

Daeth y Frigad Dân atom i atgoffa'r plant o reolau diogelwch tân yn y cartref.

Daeth Kristen, sef nyrs yr ysgol i rannu negeseuon pwysig gyda'r dosbarthiadau am sut i ofalu am ein cyrff, fel rhan o ymgyrch PANTS yr NSPCC.



Croesawyd Mrs Beti Wyn James atom i gyflwyno hanes lleol i blant Cam Cynnydd 2 fel rhan o'u thema 'Lawr a'r

Giât!' Aeth Dosbarthiadau Hywel ac Olwen ar grwydr gyda hi wedyn o gwmpas SanClêr i chwilio am dystiolaeth hanesyddol o newidiadau i dref San Clêr.

Cynhaliwyd gweithdy presenoldeb dan arweiniad Christina John gyda Dosbarthiadau Pwyll, Culhwch a Myrddin. Y nod oedd codi ymwybyddiaeth y disgyblion o effaith absenoldeb cyson ar eu haddysg a'u lles.

**Ymweliadau**
Aeth grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 6 i'r Coeg Celf yng Nghaerfyrddin er mwyn gweld rhan o'r broses o greu cerflun sydd ynghlwm a'r prosiect 'Ten Towns'. Buon nhw'n arsylwi ar y broses o gynhesu aliwminiwm i greu hylif i lenwi mowldiau a ddyluniwyd ganddynt. Bydd y gwaith gorffenedig yn cael ei arddangos yn nhref SanClêr.

**Cymdeithas Rieni a Ffrindiau**



Diolch o galon i'r Gymdeithas Rieni a Ffrindiau am eu rhodd o sied storio a Thŷ Bach Twt ar gyfer ein ardal allanol. Diolch i'r holl rieni sy'n cyfrannu'n gyson tuag at yr holl ddigwyddiadau ar galendr y Gymdeithas.

**Colled**
Gyda thristwch mawr y daeth y newyddion atom ar drothwy'r Nadolig am golled syfrdanol o sydyn priod Mrs Lisa Jones, Aaron. Mae pob un o gymuned yr ysgol yn rhannu ein cydymdeimlad dwysaf gyda hi a'i theulu. Maen nhw yn ein meddyliau ni gyd yn ystod yr amser anodd yma.

# YSGOL BANCYFELIN

**Apêl stampiau RNIB**
Bu Cyngor Eco yr Ysgol yn brysur yn trefnu casglu hen stampiau cyn y Nadolig er mwyn cefnogi ymgyrch RNIB i wneud gwahaniaeth i bobl dall a phobl rhannol ddall. Ar ôl casglu a thorri allan fe wnaethant ddanfon y stampiau i ffwrdd i gael eu hailgylchu a'u troi'n gyfraniadau gwerthfawr bydd yn helpu'r RNIB i gael gwared ar y rhwystrau sy'n parhau i fodoli mewn cymdeithas i'r rheini sy'n colli eu golwg.



Diolch yn fawr i'r Gerddi Botaneg am drefnu diwrnod o hyfforddiant i aelodau blynyddoedd 5 a 6 y Cyngor Eco. Cawsant lawer o hwyl yn dysgu am bwysigrwydd ailgylchu a gofalu am yr amgylchfyd.

**Apêl sbectolau Beti Wyn**
Hyfryd oedd croesawu Beti Wyn i'r ysgol i gynnal Gwasanaeth arbennig ar ddechrau'r tymor. Soniodd am Apêl Sbectolau Capel Bancyfelin ac yn sgîl hyn penderfynodd y Cyngor Ysgol i fynd ati i gefnogi'r fenter. Diolch o galon i rieni a ffrindiau'r ysgol am gefnogi'r apêl ac am gasglu amryw o hen sbectolau.

**Colli Ysgol / Colli Cyfle**
Mwynhaodd y plant sesiwn fywiog yng nghwmni aelodau o'r prosiect 'Colli Ysgol Colli Cyfle'. Gwnaethant weithgareddau diddorol oedd yn pwysleisio pwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd.

**'Y Ci Perffaith'**




Am raglen arbennig! Hyfryd oedd cael gwylio hynt a helynt un o deuluoedd yr ysgol yn chwilio am 'Y Ci Perffaith' ar S4C yn ddiweddar. Mwynhaodd disgyblion yr ysgol wylio'r rhaglen ac os na fuoch chi'n ddigon ffodus i weld y rhaglen, mae ar gael ar S4C clic i'w gwylio. Da iawn ferched (a Dad a Mam wrth gwrs!).

**Sesiwn ddrama Santes Dwynwen**



Cynhaliwyd sesiynau drama hwyliog heddiw o dan arweiniad Lowri Siôn. Mwynhaodd y plant ddefnyddio eu sgiliau actio er mwyn cyfleu y cymeriadau o Stori Santes Dwynwen. Diolch o galon iddi am ddod â hanes Santes Dwynwen yn fyw i'r dosbarth.

**Diwrnod 'Saff i siarad'**
Cafwyd ddiwrnod arbennig oedd wedi ei drefnu gan y Cyngor Ysgol er mwyn codi ymwybyddiaeth o ddiwrnod 'Saff i siarad' ar Chwefror 6ed. Trefnwyd amryw o weithgareddau hwyliog er mwyn annog y plant i siarad am broblemau i wella eu hiechyd meddwl ac hefyd i'w hatgoffa am bwysigrwydd sgwrsio gydag eraill.

**Dydd Miwsig Cymru**
I ddathlu Dydd Miwsig Cymru ar Chwefror 7fed trefnodd y Criw Cymraeg nifer o weithgareddau yn seiliedig ar gerddoriaeth, grwpiau a bandiau Cymreig.
Fe wnaethant gynnal Gwasanaeth ar ddechrau'r diwrnod yna cafwyd llawer o hwyl yn canu, dawnsio a

dysgu mwy am fiwsig o wahanol rannau o Gymru a chynnal helfa caneuon poblogaidd gan ddefnyddio codau QR.

**Cwis Dim Clem**



Diolch i Ysgol Griffith Jones am y croeso y cafodd plant blwyddyn 6 Ysgol Bancyfelin ar gyfer Cwis Dim Clem y Fenter. Cafwyd prynhawn cyffrous a chystadlu brwd ac fe wnaeth y plant fwynhau yn fawr. Gwnaeth y tîm berfformio yn hynod o dda a 'mond colli o un pwynt. Ymdrech arbennig!

LYNDON GEORGE

ARBENIGWR LAND ROVER ANNIBYNNOL

MOT

•CEIR •BEICIAU MODUR •FANIAU •4x4

Offer Diagnostig Diweddaraf



**Arbennigwyr Land Rover yn San Clêr, Sir Gaerfyrddin**

Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.

Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.

•RHANNAU SPAR •GWASANAETH •TEIARS •BATRIS•WELDIO •TRACIO PEDAIR OLWYN •TYMHERU AER

**Ffôn: 01994 232960 • Symudol: 07968 868313**

Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP

Jones Login
Teithiau o Safon
Quality Coach Travel

**Login**
**Hendygwyn**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA34 0UX**
**Ffôn: 01437 563277**
**www.joneslogin.co.uk**



| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Mawrth 2025** | | |
| Sad 15 | *Sioe Gerdd Calamity Jane, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| **Ebrill 2025** | | |
| Sad 19 | *Sioe Gerdd Chitty Chitty Bang Bang, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Gwe 25 | **Torvill a Dean 'Our Last Dance' a Stratford upon Avon** | 2 |
| **Mai 2025** | | |
| Dyddiad i'w drefnu! | **Gerddi Highgrove a Chaerfaddon** | 2 |
| Sad 10 | *Sioe Gerdd Chicago, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Llun 12 | **Caernarfon ac Ynys Môn** | 5* |
| Sad 17 | *Sioe Gerdd Only Fools & Horses, CMC* | 1 |
| Sad 17 | **Yr Alban - Perth a'r Canolbarth** | 7 |
| **Mehefin 2025** | | |
| Llun 9 | **Ardal y Peak District** | 5* |
| Mer 18 | **Diwrnod y Merched, Royal Ascot** | 3 |
| Llun 30 | **Gwesty Warner, Nidd Hall, Swydd Efrog** | 5* |
| **Gorffennaf 2025** | | |
| Maw 22 a Mer 23 | Sioe Frenhinol Cymru | 1 |
| Iau 24 | **Sidmouth** | 5* |
| Sad 26 | *Sioe Gerdd Joseph a'i got amryliw, CMC* | 1 |
| **Awst 2025** | | |
| Llun 4 | **Eisteddfod a Chaer** | 6* |
| Gwe 8 | Eisteddfod | 1 |

| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Medi 2025** | | |
| Llun 1 | **Swydd Ceint, Gardd Lloegr** | 5* |
| Llun 15 | **Tai Hanesyddol a Gerddi y Gogledd Orllewin** | 5* |
| Gwe 20 | **Penwythnos Siopa Uwchsonig (Concorde)** | 2 |
| Llun 23 | **Iwerddon—Swydd Mayo** | 6* |
| **Hydref 2025** | | |
| Sad 4 | **Elvis Evolution a Windsor** | 2 |
| Llun 6 | **Gwesty Warner, Cricket St. Thomas** | 5* |
| Llun 13 | **Ardal y Llynnoedd** | 5* |
| Sad 25 | *Sioe Warhorse, CMC* | 1 |
| **Tachwedd 2025** | | |
| Gwe 7 | **Twrci a Tinsel - Torquay** | 5* |
| Sad 15 | *Sioe Riverdance 30, Caerdydd* | 1 |
| Sad 29 | **Goleuadau Palas Blenheim a Windsor** | 2 |
| **Rhagfyr 2025** | | |
| Sad 6 | Marchnadoedd Nadolig Caerfaddon | |
| Gwe 12 | **Twrci a Tinsel - Blackpool** | 4 |
| Sad 13 | Nadolig yng Nghanolfan Arddio Yr Hen Rheilffordd ger Aberhonddu | 1 |
| Sad 13 | Sioe Gerdd - Mary Poppins, CMC a Bae Caerdydd | 1 |

2025 yw ein pen-blwydd yn 60 oed. Mae siawns i ennill Taleb Teithio ar bob taith yn ystod y flwyddyn.

***Gwasanaeth drws i ddrws ar y teithiau yma / Archebwch ar lein nawr / Llyfryn 2025 ar gael nawr!**

CYFRES Wenfro

# Y Môr Melyn

**CYSTADLEUAETH Cyfle i un darllenydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro**




**Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/03/25**

**Leia Jenkins, Ael y Bryn, Meidrim yw enillydd Cystadleuaeth Nadolig Gwyn ... a gwyrdd!**

Ateb: 21 o ddynion eira cyfeillgar oedd ar y cerdyn Nadolig.

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer/Atebol. **www.wenfro.cymru**

Ⓗ y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2025

**Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi cyn hir.**



# Bysiau Cwm Taf

*Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*



## Teithiau 2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwe 28ain Chwefror | CLIVE a'i FFRINDIE yn GWESTY'r CELTIC CAERNARFON | £260 | 3 Diwrnod |
| Iau 6ed Mawrth | GEM RYGBI ALBAN v CYMRU YN CAEREDIN | £449 | 4 Diwrnod |
| Sul 9fed Mawrth | PENTREF DOC MARTIN, ARFORDIR CERNYW a ST AGNES | £415 | 5 Diwrnod |
| Llun 10fed Mawrth | *NEWYDD * GWYLIAU STAFELLOEDD SENGL yng NGAINT | £495 | 5 Diwrnod |
| Gwe 14eg Mawrth | PENWYTHNOS YN DINAS HYNAFOL EFROG | £340 | 4 Diwrnod |
| Gwe 21ain Mawrth | PAIGNTON a GERDDI BOTANEG BICTON | £335 | 4 Diwrnod |
| Gwe 28ain Mawrth | LOOE, ARFORDIR CERNYW a'r "EDEN PROJECT" | £340 | 4 Diwrnod |
| Llun 31ain Mawrth | RHYFEDDODAU WEYMOUTH a "JURASSIC COAST" | £445 | 5 Diwrnod |
| Llun 7fed Ebrill | LLANBERIS a RHEILFFYRDD RHAMANTUS GOGLEDD CYMRU | £555 | 5 Diwrnod |
| Sad 12fed Ebrill | BLAS o GYMRU o WESTY'r TYNEDALE LLANDUDNO | £545 | 5 Diwrnod |
| Llun 14eg Ebrill | TULIPS a MELINAU GWYNT YR ISELDIROEDD | £695 | 5 Diwrnod |
| Gwe 25ain Ebrill | TORVILLE & DEAN yn BIRMINGHAM BWS A (Seddi Gwaelod) | £320 | 3 Diwrnod |
| Gwe 25ain Ebrill | TORVILLE & DEAN yn BIRMINGHAM BWS B (Seddi Uwch) | £320 | 3 Diwrnod |
| Gwe 25ain Ebrill | TORQUAY, TOTNES a taith llong ar yr Afon DART | £365 | 4 Diwrnod |
| Llun 28ain Ebrill | Yr HYFRYD SANDOWN ar YNYS WYTH | £465 | 5 Diwrnod |
| Llun 5ed Mai | "Wedgwood Wonders, Trentham Treats & Cheshire Charms" | £580 | 5 Diwrnod |
| Maw 6ed Mai | GUERNSEY | £1,100 | 6 Diwrnod |
| Llun 12fed Mai | Manchester - Concorde, Lowry a Gardd Godidog RHS | £505 | 5 Diwrnod |
| Sul 18fed Mai | "CALL THE MIDWIFE" a DINAS HYNAFOL CAINT | £545 | 5 Diwrnod |
| Llun 19eg Mai | TAITH DDIRGEL MIS MAI | £575 | 5 Diwrnod |
| Gwe 23ain Mai | SIOE FLODAU CHELSEA | £440 | 3 Diwrnod |
| Sul 25ain Mai | TAITH ANTUR FAWREDDOG yr ALBAN | £1,750 | 12 Diwrnod |
| Gwe 30ain Mai | PENWYTHNOS "ABBA VOYAGE" yn LLUNDAIN | £410 | 3 Diwrnod |
| Gwe 6ed Mehefin | MINEHEAD a RHEILFFORDD "WEST SOMERSET" | £455 | 4 Diwrnod |
| Sul 8fed Mehefin | MEYSYDD y BRWYDRO yn NORMANDI | £825 | 5 Diwrnod |
| Sul 15fed Mehefin | GOGONEDDAU CUDD yr IWERDDON | £775 | 6 Diwrnod |
| Gwe 20fed Mehefin | GERDDI a GRAWNWIN SURREY | £440 | 4 Diwrnod |
| Llun 23ain Mehefin | CASTLE HOWARD a DINAS HYNAFOL EFROG | £535 | 5 Diwrnod |
| Gwe 27ain Mehefin | WEYMOUTH | £405 | 4 Diwrnod |
| Maw 1af Gorffennaf | LLANDUDNO a YNYS SEIRIOL YNYS MON | £585 | 5 Diwrnod |
| Sul 6ed Gorffennaf | MORDAITH ar AFONYDD RHINE a MOSELLE yn yr ALMAEN | £1,950 | 9 Diwrnod |
| Sad 12fed Gorffennaf | CESTYLL a GWARTHEG UCHELDIR YR ALBAN | £720 | 6 Diwrnod |
| Iau 17eg Gorffennaf | Taith Fyr I'r COTSWOLDS | £310 | 3 Diwrnod |
| Llun 21ain Gorffennaf | GORORAU CYMRU | £520 | 5 Diwrnod |
| Sul 27ain Gorffennaf | AGER, JIN a'r NEW FOREST yn HAMPSHIRE | £530 | 5 Diwrnod |
| Gwe 1af Awst | Taith i Stiwdio yr enwog CORONATION STREET | £380 | 4 Diwrnod |

**Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau**

**Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni**

**01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk**

PEIRIANNEG
MARC JAMES CYF
Marc James Engineering Ltd
GWAITH PEIRIANYDDOL AMAETHYDDOL
GWASANAETH • ATGYWERIO
Y Gweithdy
Llwyncelyn
Clunderwen
SA66 7HL
01437 563930
07831 149237
marcjamesengineering@btconnect.com

SPAR
Llanboidy
Swyddfa Bost
Nwyddau o bob math
Diodydd
Loteri
SWYDDFA POST
Ffôn: 01994 448221

Jones Login
Teithiau o Safon
*Gwasanaeth o'r safon uchaf*
Login, Hendy-gwyn ar Daf
Sir Gaerfyrddin. SA34 0UX
Ffôn: 1437 563277
info@joneslogin.co.uk
www.joneslogin.co.uk

Wyndham Phillips a'i Feibion
POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr
*Bara a chacennau ffres yn ddyddiol*
Ffôn: 01994 230474

LAMO'S
MOTORCYCLES
*"Dyma'r lle i feicmodurwyr"*
The Showroom
Llandissilio
*Gwerthiant ▫ Gwasanaeth ▫ Atgyweirio*
Ffôn / Ffacs: 01437 563678

MASON BROS
GWASANAETH GWERTHU
PEIRIANNAU NEWYDD AC AIL-LAW
THE NORTON YARD,
LAMPETER VELFREY,
NARBERTH
Ffôn: 01834 831653 / 831553

HUW JONES
ADEILADWR
Dorset House
Heol y Gogledd
Hen Dy Gwyn ar Daf
Ffôn: 01994 240811
Symudol: 07817 633329

DERI PAGE
CIGYDD
Cig o'r ansawdd gorau
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230062
*Diolch am eich cefnogaeth*

GT TYRES
Arbenigwr mewn
Teiars Ceir,
Masnachol
ac Amaethyddol
Brooklyn Garage
Heol y Castell
Aberteifi. SA43 3AE
☎: 01239 612814 / 07765 034705

arwyddion
EagleSigns
Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion,
Argraffu a Lifrau Cerbydau
01994 231749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk
Uned 3/4, Parc Tir Owen,
San Cler. SA33 4BY

dp MASNACHWYR ADEILADU
*"Gwasanaethu ein cymuned ers 30 mlynedd"*
LLANBOIDY 01994 448435
ARBERTH 01834 861118
dpbuildingsupplies.co.uk

SONIA'S
Siop Trin Gwallt
Llandysilio
Oriau Agor
Mercher: 5.30y.h - 9.00y.h.
Iau: 8.00y.b. - 3.00y.p.
Gwener: 9.00y.b. - 6.00y.h.
Sadwrn: 8.00y.b. - 2.00y.p.
Ffôn: 01437 563816

H THOMAS a'i FAB
Peiriannydd Amaethyddol
Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

D. E. PHILLIPS
a'i Feibion
TANYBRYN, GLANDWR
*Trydanwyr*
*Siop Radio a Theledu*
CRYMYCH
Setiau ar werth
Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

Y GARREG LWYD
Heol Salem, Sancler
*Cartref Oddi Cartref*
Ffoniwch y rheolwraig
01994 230855

**BAR BECA**
Rhosfach, Efailwen
**Guto Jenkins**
Oriau agor Gaeaf: Hydref 1af-31 Mawrth
(Ar gau Llun, Mawrth a Mercher)
Agor Iau a Gwener: 4.30yp - 11yh
Sadwrn a Sul 3yp - 11yh
Oriau Haf: Ebrill 1af - 30ain Medi
(Ar gau nos Lun)
Agor Mawrth, Mercher, Iau 5.30yh - 11yh
Gwener, Sadwrn, Sul 3yp - 11yh
Ffôn: 07554 664316

GSJ
G.S.JENKINS
EFAILWEN, CLUNDERWEN
07554 664 316
**Pridd wedi sgrinio ar gyfer blodau, llysiau neu lawnt, hefyd gwasanaeth hurio treilar**


Gwasanaeth hurio cloddiwr 3 tunnell
Cludiant am ddim hyd at 6 milltir
**GWION JENKINS**
Ffôn: 01994 419222
Symudol: 07787 826574

**OWEN PHILLIPS**
Llanddewi Efelffre
**SAER COED**
Ffôn Symudol:
07919 524569

G&S Llewellyn a'i Mab

**Contractwyr Amaethyddol**
Pen-y-Cwm, Llandysilio
Clunderwen. SA66 7TX
Ffon: 01437 563320

Olew Oil
**Trefigin**
sef. 1985 est. 1985
Y Gwasanaeth sy'n Gwresogi
TANWYDD TŶ / HEATING OIL
DERV / DERV
DISEL FFERM / FARM DIESEL
LIWB OLEW / LUBRICANTS
Warm to our Service
Cwmni annibynnol, teuluol, lleol, Cymraeg
(01239) 881630 www.trefigin.cymru (01239) 881282

**COLIN JOHN**
**Llewelyn Davies**
**Cyfrifwyr Siartedig**
Hendygwyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk

**GAREJ WYN CYF**
Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymych, Sir Benfro
SA41 3RG
MOT
Gwasanaeth •Atgyweirio
Teiars • Batris
Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853

**CBS**
CRYMYCH
**ADNODDAU ADEILADU**
Uned 11B, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444
e-bost: sales@crymychbuildingsupplies.co.uk

Tomos Rees
**NEW HOUSE GARAGE**
Atgyweirio a M.O.T.
Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr
**ALLPUMP SERVICES**
ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH, SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR
Fferm Ffynnonlwyd
Llangynin
San Clêr
SA33 4LD
Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693
e.bost:
enquiries@allpump.co.uk

**DAIL PREN**
Crefftwaith pren, arwyddion a gwaith ysgythru laser
Tomos Lewis
dailpren.co.uk | dailpren@hotmail.com

**FFERYLLFA EVANS**
MEDICAL HALL • REBECCA HOUSE
San Clêr
01994 230444 01994 230456
**eich canolfan gofal iechyd lleol**
*Cyngor rhad ar gael gan ein staff profiadol*

Celia Vlismas
OPTEGYDD
Croeso i gleifion GIG!

**Profion golwg GIG ar gael**
Yn gyflym ac yn hawdd i unrhyw un sy'n gymwys i gael gofal llygaid GIG
Castell Newydd Emlyn 01239 711888
Crymych 01239 831555
Arberth 01834 861373
www.celiavlismasopticians.co.uk

**Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf**
Robert W. R. Morgan
ECA CYMERADWYEDIG GAN NICEIC
17 Trevaughan Lodge
Hendygwyn ar Daf
SA34 0QF
Ffôn: 01994 240946 - Symudol: 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com

# Clwb Rygbi Hendygwyn

**Dynion**
Ionawr 25ain- ennill i ffwrdd yn erbyn Aberdaugleddau 17-55. Roedd y bois yn colli ar yr egwyl, ar ôl chwarae gyda'r gwynt drwy gydol yr hanner cyntaf. Fodd bynnag, roedd hi'n stori hollol wahanol yn yr ail hanner, gwnaeth y bois gadw meddiant a sgorio nifer o geisiau da iawn - a hynny yn erbyn y gwynt !!

Chwefror 1af - colli adref yn erbyn Nantgaredig, 20 - 15. Methodd y bois sgorio unrhyw bwyntiau yn ystod yr hanner cyntaf, ond wedi'r egwyl gwnaethant frwydro nôl mewn i'r gêm, ond gwaetha'r modd roedd y niwed wedi ei wneud yn yr hanner cyntaf.

**Menywod** - rownd go gyn derfynol y Cwpan, ennill i ffwrdd yn erbyn Pontyclun 29-40. Ymlaen nesaf i chwarae yn erbyn yr hen elyn Porth Tywyn yn y rownd gyn derfynol ar Chwefror 16eg. Colli etbyn Pontyclun 24-22 ar 2/2 Tigers.

Mae timau y **Teigrod** 12/14 oed yn chwarae gan amlaf pob penwythnos. Nid yw'r tim dan 12 wedi colli un gêm hyd yn hyn. Collodd y tîm dan 14 yn erbyn tîm y Timberwolves o Llanbed yn ddiweddar.

Mae'r **timau iau** yn cadw mlaen i chwarae hefyd - ac er iddynt gael canlyniadau cymysg, maent dal i gredu a dal i fwynhau! *Suzanne Davies*



Tîm merched dan 16 yn erbyn Cleddau Wildcats



Tîm merched dan 14

*Clwb Rygbi San Cler - parhad o dudalen 32*
Gêm adref yn erbyn Felinfoel oedd gennym ar Chwefror 1af, sy'n brwydro rhag disgyn i'r Ail Adran ac roeddent yn barod am y frwydr i oroesi. Tra bod yr hanner cyntaf yn ornest agos gyda'r sgôr ar yr egwyl yn 6 - 11 I Felinfoel, fe wnaethon nhw fanteisio'n gyflym ar amddiffyn gwan y Seintiau a mynd ar y blaen 11 - 30. Roedd nifer o'n chwaraewyr yn absennol am wahanol resymau, gan gynnwys anafiadau a gwyliau, ac heriwyd ein penderfyniad. Ymatebodd y tîm yn dda ac er gwaethaf ymdrech aruthrol, dod yn ail orau wnaethom gan golli o 35 - 38. Wedi dweud hynny, cafwyd sgôr uchel arall a 2 bwynt holl bwysig. Sgoriwyd ceisiau gan Jake Williams, Brandon Williams (2), Dafydd Waters a Jack Tucker - 2 gic gosb a 2 drosiad gan Chw Thomas.

Roedd ein hieuenctid nôl yn chwarae wedi i rai gemau gael ei gohirio ym mis Ionawr oherwydd tywydd gwael, gyda buddugoliaethau yn erbyn De Gŵyr a Llangennech. Un gêm yn unig mae'r ail dîm wedi chwarae yn ddiweddar gan golli yn erbyn y Tymbl.
Ar ôl dechrau prysur i'r flwyddyn, mae gwir angen egwyl ar y garfan, bydd ein gêm nesaf i ffwrdd yn erbyn Cydweli ar Chwefror 15fed. Bu'n fis prysur ac mae'r clwb yn ddiolchgar i'r llu noddwyr am eich cefnogaeth, yn ogystal â'r cefnogwyr ffyddlon. Cynhaliwyd Diwrnod y Merched ar ddiwrnod y gêm yn erbyn Felinfoel gyda nifer fawr yn bresennol. Diolchwn yn ddiffuant i'r trefnwyr am drefnu digwyddiad gwych gyda'r babell yn llawn - a chafwyd diwrnod da gan bawb.
*Gwyndaf Williams - Lluniau: Chris Rees*









# CHWARAEON

## Clwb Pêl-droed Llanboidy



**Tymor 2024-25**

Mae tymor 2024-25 yn mynd yn ei blaen i Glwb Pêl-droed Llanboidy, gyda'r tîm cyntaf a'r ail dîm wedi chwarae ambell gêm yn ystod mis Ionawr a dechrau Chwefror yn ogystal â'n hadran iau.

**Tîm 1af**

Mae ein tîm cyntaf sydd yn chwarae yn Adran 1 Ceredigion am 2024-25, wedi chwarae tair gêm, gan ennill y tair. Golygir hyn ei bod yn eistedd yn y 4ydd safle yn y gynghrair.

Ionawr

11eg: Llanboidy 3-2 Llandysul (Luke Brisco, Daf Jones a Geth Scourfield)

18fed: Llanboidy 3-1 Cei Newydd (Calum Syddall x 3)

Chwefror 1af: Llanboidy 2-0 Crannog (Cian Strudley a Geth Scourfield)

**2il Dîm**

Mae'r ail dîm yn chwarae yn Adran 3 Ceredigion yn nhymor 2024-25 o dan arweinyddiaeth Chris Bowen. Dwy gêm mae'r ail dîm wedi chwarae dros y mis diwethaf, gan golli'r ddau.

Ionawr 11eg: Crannog 3-0 Llanboidy

Chwefror 1af: Crymych 8-6 Llanboidy (Jason Reynolds, Chris Bowen, Will Abbott x 2 a Phil Howells x 2)

Bydd ein hymarferion bob nos Lun ar Astro Ganolfan Hamdden Caerfyrddin rhwng 8-9yh. Croeso cynnes i bawb.

**Adran Iau**

Mae'r tymor hefyd yn parhau i'n hadran iau. Diolch yn fawr iawn i'r holl hyfforddwyr sydd wedi bodloni cynorthwyo'r amryw o dimoedd dros y misoedd diwethaf. Mae nifer o gemau wedi ei chwarae ar foreau Dydd Sadwrn, mae'n braf gweld datblygiad ein chwaraewyr ifanc.

Diolch yn fawr iawn i'n holl noddwyr - rydym wir yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaol i'r Clwb. Rydym o hyd yn chwilio am noddwyr newydd, felly os oes diddordeb gyda chi; cysylltwch. Am fwy o wybodaeth, dilynwch neu cysylltwch gyda ni ar ein cyfryngau cymdeithasol.



Frazer Wyatt (uchod) ac Ifan Jones (isod) yn ystod gêm erbyn Cei Newydd.



## Clwb Rygbi San Clêr

Croesawyd Pontarddulais i Barc Griffith Jones ar ddydd Sadwrn, Ionawr 11eg ac roeddem yn edrych am ymateb ar ôl ein colled yr wythnos flaenorol yn erbyn tîm cryf iawn Yr Hendy. Roedd y garfan a'r hyfforddwyr wedi gwneud y gwaith caled yn ystod yr wythnos ac wedi sicrhau buddugoliaeth o 34 - 14, sef yr hyn yr oedd ei angen arnom. Sgoriwyd ceisiau gan Jac Howells (3), Dafydd Waters a Jacob Davies - 1 cic gosb a 2 drosiad gan Che Thomas ac 1 trosiad gan Daniel Griffiths.

Roedd ein gêm nesaf ar Ionawr 18fed, i ffwrdd yn erbyn Penclawdd, ac er ei bod ar waelod y gynghrair, roeddent wedi rhoi gêm agos i ni adref. Chwaraeodd y tîm yn dda iawn drwy sicrhau buddugoliaeth swmpus o 5 - 53. Sgoriwyd ceisiau'r Seintiau gan Alun Davies, Rhodri Evans, Tomos Williams (2), Sam Miles, Dylan Richards a Dafydd Rees (2) - 5 trosiad ac 1 gic gosb gan Dan Griffiths.

Gêm adref yn erbyn Porth Tywyn oedd gennym ar Ionawr 25ain a oedd wedi curo Dinbych y Pysgod adref yr wythnos flaenorol. Roeddem ni'n disgwyl gêm agos, gan i'r gêm flaenorol ym Mhorth Tywyn ddod i ben 38 – 45 i'r Seintiau a gyda chefnogaeth cryf, roedden nhw lan am y gêm hon ac yn awyddus i dalu'r pwyth yn ôl. Dechreuodd y gêm gyda Porth Tywyn ar y blaen er i'r Seintiau gael ambell gyfle cynnar. Amddiffynfeydd cryf oedd nodwedd amlycaf y gêm a chyfleoedd prin iawn. Wrth i'r gêm fynd yn ei blaen, dechreuodd y pac cartref ddominyddu gan fynd â'r bêl i 22 y gwrthwynebwyr i greu nifer o gyfleoedd, gan fanteisio ar rai ohonynt. Sgoriwyd ceisiau gan Dafydd Walters a Tomos Williams gyda 4 cic gosb gan Che Thomas a sicrhaodd y fuddugoliaeth o un pwynt, 22-21 a phwyntiau hollbwysig i'n cadw'n gadarn yn y 3ydd safle yn y gynghrair.

*parhad ar dudalen 31*